ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 303/2026
Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2026
Yn disodli dogfen ganllaw rhif: 227/2018, 264/2020 a 278/2022

# Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Cynulleidfa

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau esgobaethol, a sefydliadau addysg uwch.

## Trosolwg

Bydd y canllawiau a'r templedi yn helpu'r rhai sy'n datblygu achosion busnes i'w hystyried gan y Gyfarwyddiaeth Addysg.

## Camau i'w cymryd

Dylid defnyddio'r canllawiau wrth baratoi achosion busnes er mwyn cael arian cyfalaf a refeniw o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:


Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 257672
e-bost: cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru


## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn
llyw.cymru/rhaglen-cymunedau-dysgu-cynaliadwy

## Dogfennaucysylltiedig

*Canllawiau cyhoeddusrwydd ar gyfer prosiectau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy*
*Canllawiau Gwerth Cymdeithasol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy*
*Canllawiau Statudol cysylltiedig ar y wefan Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.*


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53536, ISBN digidol 978-1-83745-265-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad 2**

**2. Y broses gwneud cais 8**

**3. Y broses asesu 23**

**4. Y broses o gymeradwyo prosiect 24**

**5. Monitro a gwerthuso prosiect 31**


**Mae'r atodiadau canlynol wedi'u darparu ar wahân ac nid ydynt yn y ddogfen hon:**


**Atodiad 1a: Templed Achos Busnes Cyfalaf**

**Atodiad 1b: Templed Achos Busnes y Model Buddsoddi Cydfuddiannol**

**Atodiad 2: Tabl o fanteision y prosiect**

**Atodiad 3: Fframwaith opsiynau – enghraifft wedi'i chwblhau (cam yr Achos Amlinellol Strategol)**

**Atodiad 4: Templed arfarnu opsiynau (enghraifft wedi'i chwblhau)**

**Atodiad 5: Templed arfarnu opsiynau (gwag)**

**Atodiad 6: Meincnod safon costau**

**Atodiad 6a: Safon maint**

**Atodiad 7: Templed costau prosiect Achos Busnes Amlinellol**

**Atodiad 7a: Templed costau prosiect Achos Busnes Llawn**

**Atodiad 8: Ffurflen wybodaeth y Prosiect**

**Atodiad 9: Ffurflen amrywio**

**Atodiad 10a: Canllawiau Carbon Sero Net**

**Atodiad 10b: Templed Carbon Sero Net**

**Atodiad 11: Gwerthusiad Ôl-feddiannu**

**Atodiad 11a: Cyfarwyddiadau desg ar gyfer Gwerthusiad Ôl-feddiannu**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun

Caiff y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei darparu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac esgobaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r canllawiau hyn er mwyn dangos gofynion achos busnes penodol y Rhaglen.

Dylai'r canllawiau hyn gael eu darllen ar y cyd â *Llyfr Gwyrdd* Trysorlys EF a *Public sector business cases using the five case model: update guidance*.

## 1.2 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Model cyflawni cydweithredol yw'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda chyfraddau ymyrraeth cyllido Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y math o gynllun. Darperir y cyllid sy'n weddill gan y partner cyflawni:

- 65% o gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf.
- 75% o gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a ariennir gan gyllid cyfalaf.
- 85% o gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a ariennir gan gyllid cyfalaf;
- 81% o gyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a gyflawnir drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a ariennir gan gyllid refeniw.

Yn ogystal â'r uchod, mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyfraddau ymyrraeth o 100% am gostau i sicrhau bod y cynllun yn garbon sero net ac am TAW anadenilladwy i sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ffordd arloesol o fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus a ddatblygir yng Nghymru.

Datblygwyd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol gan Drysorlys Cymru i gyllido prosiectau cyfalaf mawr drwy refeniw, gan gynnig buddsoddiad ychwanegol mewn cyfleusterau addysgol newydd yng Nghymru. Mae prosiectau o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn golygu contractau 25 mlynedd hirdymor ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n ofynnol i gydlofnodwyr Cytundeb y Prosiect yn y sector preifat ddylunio, adeiladu, cyllido a chynnal a chadw cyfleuster ac ymdrin ag ef ar bob cam o'i gylch oes.

Mae prosiectau o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cynnwys contract cynnal a chadw 25 mlynedd ar gyfer pob prosiect er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar adeg trosglwyddo neu yn ystod oes y contract.

Mae prosiectau o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn destun proses gymeradwyo amgen. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod hyn.

Drwy ddull datblygu ar y cyd, mae'r Rhaglen wedi cyflawni ar gyflymder ac yn unol â blaenoriaeth partneriaid cyflawni. O ystyried y cymhlethdod a'r cyfnod estynedig sy'n

gysylltiedig â chyflawni prosiectau drwy derfynau amser ‘sefydlog’ y Rhaglen a'r heriau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni, mae'r rhaglen wedi symud i Raglen Dreigl naw mlynedd ers hynny, sy'n cyd-fynd â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a'i Chynlluniau Cyllid Seilwaith tair blynedd.

Cymeradwywyd ceisiadau cychwynnol a gyflwynwyd o dan y Rhaglen Dreigl drwy Gynlluniau Amlinellol Strategol partneriaid cyflawni. Rhaid i bartneriaid cyflawni adolygu eu Cynlluniau Amlinellol Strategol o leiaf bob tair blynedd, sy'n gyfle iddynt ailystyried cyflymder a blaenoriaeth yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Bydd pob prosiect sydd wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Amlinellol Strategol hyn yn destun cymeradwyaeth achos busnes llawn cyn dyfarnu cyllid.

Yr amcanion buddsoddi yw'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at eu cyflawni drwy ei buddsoddiad gyda phartneriaid cyflawni yn y Rhaglen. Mae'r amcanion hyn yn:

- llywio'r broses o ddethol buddsoddiadau a dyrannu cyllid
- sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei flaenoriaethu'n briodol

**Trawsnewid amgylcheddau dysgu a phrofiadau dysgwyr**

- Cefnogi pob dysgwr i fod yn ddinasyddion iach, llawn diddordeb, mentrus a moesegol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, mewn lleoedd dysgu sy'n ddiogel, yn gynhwysol ac sy'n rhydd o wahaniaethu a bwlio.
- Gwella profiad a llesiant dysgwyr yn yr amgylchedd adeiledig, sy'n helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.
- Darparu seilwaith digidol o'r radd flaenaf i wella amgylcheddau dysgu a dulliau addysgu i fyfyrwyr o bob oedran ac i'r gymuned ehangach.
- Cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.

**Ateb y galw am leoedd ysgol**

- Darparu seilwaith addysgol effeithlon ac effeithiol a fydd yn ateb y galw am leoedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Cefnogi'n rhagweithiol y broses o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod.
- Darparu'r nifer cywir o leoedd i gyflwyno addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.
- Mynd i'r afael â materion digonolrwydd lle bo'n berthnasol.

**Gwella cyflwr ac addasrwydd yr ystad addysg**

- Lleihau costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw i'r ysgolion a'r colegau a ddewisir ar gyfer y rhaglen, gan ystyried yr ystad gyffredinol.
- Cael gwared ar adeiladau cyflwr ac addasrwydd categori D yn yr ystad.
- Lleihau nifer yr adeiladau cyflwr ac addasrwydd categori C a gwella eu cyflwr i gategori A neu B.

**Datblygu amgylcheddau dysgu cynaliadwy**

- Gweithio tuag at Garbon Sero Net oes gyfan drwy drefniadau Carbon Sero Net gorfodol y rhaglen sydd ar waith a'r targedau ar gyfer carbon ymgorfforedig yn unol ag Ymrwymiadau Lleihau Carbon Llywodraeth Cymru.
- Darparu amgylcheddau dysgu cynaliadwy sy'n buddsoddi mewn bioamrywiaeth er mwyn gwella'r amgylchedd amgylchynol a chefnogi Cerdded, Olwyno, a Beicio.

**Cefnogi'r gymuned**

- Ysgolion Bro, sy'n gwneud y defnydd gorau o seilwaith ac adnoddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan weithio ar y cyd ag athrawon, staff, cyrff llywodraethu, dysgwyr, teuluoedd a chymunedau. Bydd hyn yn cynnwys hyblygrwydd ein hasedau fel y bydd gofod a chyfleusterau ar gael y tu allan i oriau ysgol ar gyfer gweithgarwch allgyrsiol, chwarae a hamdden, dysgu oedolion a dysgu yn y gymuned.
- Sicrhau cymaint o fanteision cymunedol a gwerth cymdeithasol â phosibl drwy'r gadwyn gyflenwi.
- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgu oedolion, gan roi cyfle i aelodau o'r gymuned ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu hyder.
- Cefnogi partneriaethau amlasiantaethol a chynnig dull integredig o gefnogi dysgwyr a'r gymuned, gan gynnwys cydleoli gwasanaethau.

Ar gyfer prosiectau sydd am ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, neu lle mae angen mwy o gyngor ar sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer prosiectau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, e-bostiwch Cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru

Mae pob Achos Busnes a gyflwynir wedi'i seilio ar Raglen Amlinellol Strategol, sy'n rhoi darlun cyffredinol o strategaethau awdurdodau lleol / sefydliadau addysg bellach unigol**.** Wedyn gellir cymeradwyo prosiectau unigol ar yr amod bod Achos Busnes boddhaol wedi dod i law.

Ar gyfer prosiectau gwerth mwy na £7.5 miliwn, caiff yr Achosion Busnes eu cyflwyno mewn tri cham:

- Achos Amlinellol Strategol
- Achos Busnes Amlinellol
- Achos Busnes Llawn

Ar gyfer prosiectau llai gwerth llai na £7.5 miliwn caiff yr Achos Amlinellol Strategol, yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn eu disodli gan un ddogfen, sef yr Achos Cyfiawnhad Busnes.

## 1.3 Newidiadau i'r broses

Yn sgil adborth, rydym wedi lleihau'r angen i ailadrodd gwybodaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys ar gamau achos busnes blaenorol, oni fyddant wedi newid. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae rhai gweithgareddau achos busnes yn digwydd yn gynharach yn y broses, h.y. nodir yr opsiwn a ffefrir yn yr Achos Amlinellol Strategol ac nid yr Achos Busnes Amlinellol.

Rydym yn gweithredu ar egwyddor o wella'n barhaus, a byddem yn gwerthfawrogi'ch

sylwadau ar y canllawiau hyn. Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd.

## 1.4 Trosolwg o'r broses

### 1.4.1 Y Model Busnes Pum Achos

Bydd pob Achos Busnes yn cael ei seilio ar y pum maes allweddol sy’n sail i’r Broses Gwell Achos Busnes (y Model Busnes Pum Achos).

| | |
|---|---|
| **Yr Achos Strategol** | Sut mae’r cynnig yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau’r llywodraeth/blaenoriaethau lleol? Cefnogi polisïau a strategaethau presennol y sefydliad a rhaglenni a phrosiectau eraill yn y portffolio strategol?<br><br>Beth yw’r achos o blaid newid ac a oes amcanion buddsoddi CAMPUS clir?<br><br>Beth fydd effaith y buddsoddiad: y sefyllfa bresennol o'i chymharu â'r sefyllfa arfaethedig ar ôl buddsoddi?<br><br>Sut mae'r buddsoddiad yn cefnogi nodau polisi allweddol?<br><br>A ydych wedi amlinellu'r prif fanteision, y prif risgiau, a'r cyfyngiadau a'r dibyniaethau allweddol ar gyfer buddsoddi? |
| **Yr Achos Economaidd** | Sut y gallwn nodi'n systematig bob opsiwn sy'n cyflawni'r amcanion buddsoddi, a pha opsiwn sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian yn gyffredinol, gan gynnwys manteision cymdeithasol ehangach, cynaliadwyedd amgylcheddol ac effeithiau hirdymor? |
| **Yr Achos Masnachol** | Sut y gellir dod i gytundeb ag asiantau cyflawni?<br><br>Beth yw’r strategaeth gaffael a’r defnydd o'r trefniadau masnachol ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig?<br><br>Cadarnhewch a ddefnyddiwyd fframwaith.<br><br>Beth yw'r cynllun gwerth cymdeithasol?<br><br>A ystyriwyd polisi Cyfrifon Banc y Prosiect? A gaiff Cyfrif Banc Prosiect ei ddefnyddio neu a nodwyd rhesymau cymhellol dros beidio â defnyddio un? |
| **Yr Achos Ariannol** | A yw'r cynnig yn fforddiadwy?<br><br>Beth yw'r ffynonellau arian cyfatebol a beth yw'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer y buddsoddiad? |

| | |
|---|---|
| **Yr Achos Rheoli** | Sut yr eir ati i reoli'r gwaith o gyflawni'r cynllun a'r manteision oes gyfan?<br><br>Sut y bwriedir rheoli risg? |

Ystyrir y pum maes hyn ar gamau gwahanol o broses yr achos busnes. Mae **Atodiad 1a** yn rhoi dadansoddiad llawn o bob un o'r meysydd hyn a'r hyn sy'n ofynnol ar bob cam achos busnes. Fel canllaw rhoddir crynodeb o bob cam isod:

- Bydd yr **Achos Amlinellol Strategol** yn canolbwyntio ar y cyfiawnhad strategol (yr Achos Strategol), yr amcanion buddsoddi ar gyfer y prosiect (yr Achos Strategol), creu cofnod cynhwysfawr o opsiynau ar y rhestr hir a ystyriwyd, ynghyd â'r rhesymeg dros droi'r rhain yn rhestr fer o opsiynau dichonadwy i weithredu arnynt ac ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw yr 'opsiwn a ffefrir' (yr Achos Economaidd), cost amlinellol y prosiect (yr Achos Ariannol) a'r strwythur rheoli arfaethedig (yr Achos Rheoli).

- Bydd yr **Achos Busnes Amlinellol** yn canolbwyntio'n bennaf ar y strategaeth fasnachol (yr Achos Masnachol), y dadansoddiad manwl o'r arfarniad o opsiynau a manteision, ac ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw byddai hyn wedi'i gwblhau yn yr Achos Amlinellol Strategol (yr Achos Economaidd), manylion yr arian cyfatebol a'r proffil gwariant (yr Achos Ariannol). Dim ond os bydd yr Achos Strategol wedi newid ers cytuno ar yr Achos Amlinellol Strategol yr edrychir eto ar yr Achos Strategol.

- Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf bydd yr **Achos Busnes Llawn** yn canolbwyntio ar gostau'r tendr yn unig oni fydd rhywbeth wedi newid ers cytuno ar yr Achos Busnes Amlinellol. Yn yr un modd ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Cap Fforddiadwyedd a darparu'r ffurflen safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect (gan gynnwys Gofynion Adeiladu a Manyleb Lefel Gwasanaeth yr Awdurdod).

- Ar gyfer prosiectau llai, mae'r **Achos Cyfiawnhad Busnes** yn ymdrin â'r meysydd hyn i gyd gyda'i gilydd.

Rydym hefyd yn gofyn am i'r ffurflen weithredol o fewn **Atodiad 1a/1b** gael ei chwblhau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth allweddol i aseswyr achos busnes yn cael ei chyflwyno ar y cyd â phob achos busnes a gyflwynir. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i bob partner cyflawni.

### 1.4.2 Achosion Busnes Cyfun

Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai y bydd yn bosibl cyfuno Achosion Busnes, a chyflwyno Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar y cyd neu Achos Busnes Amlinellol/ Achos Busnes Llawn ar y cyd (ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf). Fodd bynnag, dylai cyfuno camau achos busnes fod yn beth eithriadol nid arferol.

Mae'n bwysig bod achosion busnes ar wahân yn cael eu cyflwyno lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau y gellir rhoi adborth pan fydd y prosiect ar gam ffurfiannol. Bydd hyn yn atal dyblygu gwaith, yn lleihau nifer yr ymholiadau, ac yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd cyllid

yn cael ei gapio.

**Dylai achos busnes cyfun gael ei drafod â thîm y rhaglen ar y cyfle cynharaf posibl.**

### 1.4.3 Amserlenni Achos Busnes

Dylai'r **Achos Amlinellol Strategol** gael ei gyflwyno pan fydd y prosiect ar gam ffurfiannol. Bydd hyn yn sicrhau bod adborth gan swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i lywio'r prosiect. Os bydd angen ymgynghoriad addysg statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yna dylai fod digon o wybodaeth i gwblhau'r Achos Amlinellol Strategol yn dilyn y penderfyniad i ymgynghori. Er enghraifft, gallai'r Achos Amlinellol Strategol gael ei gyflwyno ochr yn ochr â chyhoeddi hysbysiad statudol pan fydd yr adborth cychwynnol wedi cael ei ystyried gan yr awdurdod. Ar gyfer prosiectau nad oes angen ymgynghoriad statudol arnynt, dylai'r Achos Amlinellol Strategol gael ei gyflwyno yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol â gwariant cyfyngedig.

Ar gam **Achos Busnes Amlinellol**, dylai'r prosiect fod yn gymharol ddatblygedig, gan gynnwys:

- Penderfynu ar unrhyw broses statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- Cwblhau (neu derfynu) dyluniad cam 2 RIBA, gan gynnwys cymharu'r rhestr o adeiladau â'r Bwletin Adeiladu perthnasol.
- Os yw proses dendro dau gam yn cael ei dilyn, gallai'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gyflwyno ochr yn ochr â'r cam cyntaf neu'n union wedi hynny.
- Os defnyddir proses dendro un cam, byddai'r Achos Busnes Amlinellol yn rhoi cymeradwyaeth i ddechrau'r broses dendro.

Ar gam **Achos Busnes Llawn**, dylai'r prosiect fod wedi'i ddatblygu'n llawn, gan gynnwys:

- Dylai cymeradwyaethau cynllunio a chymeradwyaethau gan y Bwrdd Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy fod ar waith neu ar fin bod ar waith cyn cyfarfod y Panel Buddsoddi mewn Addysg.
- Dylai fod sicrwydd o ran costau yn seiliedig ar bris contract y cytunwyd arno.

Dylai unrhyw wyriad oddi wrth yr amserlenni uchod gael ei drafod â thîm y Rhaglen cyn ei gyflwyno i gael cytundeb.

Ni ddylai fod cyfnod hirfaith rhwng cymeradwyo Achos Busnes Llawn a gosod y contract / dechrau ar y safle. Ni ddylai hyn fod yn fwy na 6 mis. Gallai unrhyw oedi pellach arwain at dynnu'r grant a roddwyd yn ôl.

Os bydd angen **Achos Cyfiawnhad Busnes** ar gyfer y prosiect, yna dylai hwn gael ei gyflwyno yn dilyn amserlen yr Achos Busnes Llawn a nodir uchod.

### 1.4.4 Prosiectau Cymhleth neu Werth Uchel

Wrth ddatblygu prosiectau cymhleth neu werth uchel, byddem yn fwy na pharod i drefnu cyfarfod cwmpasu cychwynnol â swyddogion polisi allweddol yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltu cynnar er mwyn helpu i ddatblygu'r arfarniad o opsiynau.

Os credwch y byddai hyn yn ddefnyddiol i un o'ch prosiectau, yna siaradwch â'ch prif gyswllt ar dîm y Rhaglen.

# 2. Y broses gwneud cais

## 2.1 Cefndir

Mae achosion busnes yn mapio camau datblygu eich prosiect ac yn darparu torbwyntiau fel bod modd gwneud penderfyniadau allweddol. Gan fod penderfyniadau gwahanol yn cael eu gwneud ar bob cam, mae angen lefelau gwahanol o wybodaeth i ategu'r achos.

Er mwyn adlewyrchu'r gwahanol ofynion gwybodaeth, crëwyd templedi ar gyfer cyllid cyfalaf a refeniw sy'n gofyn cwestiynau allweddol a fydd yn ein galluogi i gasglu'r wybodaeth briodol ar gyfer pob cam o'r broses.

Mae'r dyddiadau ar gyfer y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a'r Panel Buddsoddi mewn Addysg yn cael eu pennu'n rheolaidd a'u cyhoeddi ar y wefan:
[Dyddiadau cyfarfodydd y Panel Craffu ar Achosion Busnes a Buddsoddi mewn Addysg [HTML] | LLYW.CYMRU]

Dylai'r holl wybodaeth berthnasol gael ei chynnwys yng nghorff y ddogfen. Ac eithrio Templed yr Arfarniad o Opsiynau, y Tabl o Fanteision y Prosiect, y Templed Carbon Sero Net, y Templed Costau Prosiect a Ffurflen Wybodaeth y Prosiect a atodir ar ffurf atodiadau.

Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, dylid atodi Cyflwyniad Cam 1 Cwmni Partneriaeth Addysg Cymru (WEPCo) (yr Achos Busnes Amlinellol) a Chyflwyniad Cam 2 (yr Achos Busnes Llawn). Bydd unrhyw ychwanegiadau/atodiadau eraill yn cael eu diystyru. Dylid rhifo tudalennau achosion busnes hefyd.

## 2.2 Rhaglen Amlinellol Strategol

Mae'r Rhaglenni Amlinellol Strategol wedi cael eu llunio i helpu i ddatblygu a chytuno ar raglenni sy'n ategu strategaeth/strategaethau y cytunwyd arni/arnynt. Mae'r ddogfen hon yn crisialu diben y buddsoddiad ar lefel strategol.

Mae'r Rhaglen bellach wedi pontio o gylch buddsoddi arferol rhaglen amlinellol strategol 5 mlynedd i raglen amlinellol strategol 9 mlynedd dreigl ddynamig. Bydd Rhaglenni Amlinellol Strategol ar ffurf rhaglen dreigl yn:

- cael eu hadolygu a'u diweddaru ar gylch 3 blynedd
- cyd-fynd â'r fersiwn ddiweddaraf o Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'i Chynlluniau Cyllid Seilwaith tair blynedd

O fis Ebrill 2024, cefnogir Rhaglenni Amlinellol Strategol ar ffurf rhaglen dreigl gan gynlluniau buddsoddi 9 mlynedd. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u rhannu'n 3 cham:

- blynyddoedd 1 i 3
- blynyddoedd 4 i 6
- blynyddoedd 7 i 9

Mae cymeradwyo Rhaglen Amlinellol Strategol yn rhoi cefnogaeth 'mewn egwyddor' i

brosiectau ym mlynyddoedd 1 i 3 a blynyddoedd 4 i 6. Nodir y prosiectau a gynhwysir ym mlynyddoedd 7 i 9 fel blaenoriaethau yn y dyfodol.

Bydd partneriaid yn adolygu eu Rhaglenni Amlinellol Strategol o leiaf bob tair blynedd er mwyn dilyn amcanion buddsoddi'r rhaglen a amlinellir yn y tabl canlynol.

Fel rhan o'u cynllun 9 mlynedd ar ffurf rhaglen dreigl, caniatawyd i bartneriaid cyflawni gynnwys prosiectau a gymeradwywyd mewn egwyddor yn ystod Band B, ond lle nad oedd Achos Busnes Llawn wedi cael ei gymeradwyo.

| **Blynyddoedd** | **Disgwyliad** |
|---|---|
| 1, 2 a 3 | Prosiectau y disgwylir iddynt gyrraedd yr achos busnes llawn o fewn y tair blynedd |
| 4, 5 a 6 | Prosiectau sy'n cael eu datblygu ac yn destun ymgynghoriad statudol |
| 7, 8 a 9 | Prosiectau piblinell |

Weithiau bydd angen diwygio'ch Rhaglen Amlinellol Strategol cyn yr adolygiad 3 blynedd er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod prosiect wedi cael ei ychwanegu neu ei ddileu yn ystod y cam buddsoddi presennol.

Gan fod y Rhaglen Dreigl wedi symud i ffwrdd oddi wrth amlenni cyllido sefydlog, nid oes angen Rhaglen Amlinellol Strategol ddiwygiedig lle y nodwyd bod angen cynyddu neu leihau adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau presennol.

Os ydych wedi nodi bod angen diwygio'ch Rhaglen Amlinellol Strategol i adlewyrchu'r ffaith bod prosiect wedi cael ei ychwanegu neu ei ddileu o'r cam buddsoddi tair blynedd presennol, codwch y mater â'r prif gyswllt o dîm y Rhaglen: cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru

Bydd gofyn hefyd i chi gwblhau **Tabl o Fanteision y Rhaglen (Atodiad 2)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

## 2.3 Achos Amlinellol Strategol

Yn gynnar yn y broses, prif bwrpas yr Achos Amlinellol Strategol yw:

- cadarnhau'r angen am fuddsoddiad
- cynnig ffordd ymlaen a argymhellir neu a ffefrir i'w dadansoddi ymhellach (cyllid refeniw)
- arfarnu'r prif opsiynau o ran darparu gwasanaethau
- paratoi ac arfarnu'r rhestr hir o opsiynau o fewn yr achos economaidd (cyllid cyfalaf)
- argymell ffordd ymlaen a ffefrir, ynghyd â chostau dangosol, i'w dadansoddi'n fanylach yn yr Achos Busnes Amlinellol.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu adeiladu ar ddogfennau strategaeth lleol a rhai'r llywodraeth er mwyn cyflwyno'r achos o blaid newid yn yr achos strategol.

Nodwch y dylai'r Achos Amlinellol Strategol gael ei baratoi yn unol â'r canllawiau arfer gorau a roddir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

### 2.3.1. Crynodeb gweithredol

Rydym wedi datblygu ffurflen yn lle'r crynodeb gweithredol ar gyfer pob achos busnes. Mae'r ffurflen ar gael yn **Atodiad 1a**. Diben y ffurflen hon yw sicrhau bod gwybodaeth allweddol i aseswyr achos busnes yn glir er mwyn lleihau nifer yr atodiadau a gyhoeddir.

Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi gan bob partner cyflawni. Bydd angen i'r ffurflen wedi'i chwblhau gael ei chyflwyno ar y cyd â phob achos busnes.

**Yr Achos Strategol**
Mae hon yn un o elfennau pwysicaf y ddogfen hon, a dylai nodi'r canlynol yn glir:

- Ffit Strategol
- Yr achos o blaid newid

Gweler y **Templed Achosion Busnes (Atodiad 1)** i gael rhestr lawn o'r cwestiynau i'w hystyried o dan Ffit Strategol a'r Achos o Blaid Newid.

### 2.3.2 Yr Achos Economaidd

Mae'r Achos Economaidd yn seiliedig ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EF i raddau helaeth

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tablau Buddion y Prosiect (Atodiad 2)** er mwyn nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich gwahanol opsiynau yn ei chael.

Diben yr Achos Economaidd ar y cam Achos Amlinellol Strategol yw nodi'ch rhestr hir o opsiynau yn unol â dimensiynau opsiynau'r Llyfr Gwyrdd a'i chwtogi'n rhestr fer, neu yn achos prosiect a ariennir gan gyllid refeniw, gyfiawnhad prosiect o blaid 'adeilad newydd'.

Dylai pob opsiwn gael ei asesu yn erbyn yr amcanion buddsoddi a'r ffactorau llwyddiant hollbwysig, a chael ei gario ymlaen neu'i ddiystyru fel sy'n briodol. Dylai'r asesiad Gwerth am Arian ystyried, hyd y gellir, gostau gweithredol parhaus megis y gofyniad i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion ar sail pellter.

Mae'n ddefnyddiol ymdrin â'r cwestiynau hyn mewn gweithdy. Dylai'r rhai sy'n bresennol gynrychioli'r grwpiau y mae'r prosiect yn effeithio arnynt, yn ogystal ag aelodau'r tîm prosiect. Mae'n bwysig eich bod yn nodi pwy oedd yn bresennol yn y gweithdy a gynhaliwyd i lunio'r rhestr hir o opsiynau a'ch bod yn cofnodi pryd y cynhaliwyd y gweithdy.

Dylai pob opsiwn gynnwys y canlynol o leiaf:

- Disgrifiad o'r opsiwn – amlinelliad clir o'r hyn y mae'r opsiwn yn ei olygu. Dylid cynnwys cwmpas ac unrhyw dybiaethau allweddol
- Cyfraniad at amcanion strategol – esboniad o sut mae'r opsiwn yn helpu i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig, gan gynnwys cyfeiriad at ddull newid (cysylltiadau rhwng buddsoddiad, allbwn, a'r manteision neu'r anfanteision canlyniadol). Os bydd opsiwn yn methu â chyd-fynd â'r amcanion strategol, yna gellir cyfeirio at hyn fel rheswm posibl dros ddiystyru.
- Rhesymau o blaid ac yn erbyn yr opsiwn – dylai hyn gwmpasu ffit strategol,

dichonoldeb, cyflawnadwyedd, manteision/anfanteision posibl, risgiau a dibyniaethau.
- Casgliad – rhoi rhesymeg glir, gan gyfeirio at yr wybodaeth uchod ynglŷn â pham mae opsiwn yn cael ei gario ymlaen neu ei ddiystyru.

O ran cynhyrchu a dadansoddi eich rhestr hir o opsiynau, mae'r fframwaith opsiynau'n golygu bod modd ystyried amrywiaeth eang o opsiynau ac mae'n darparu methodoleg i ddatblygu rhestr fer o opsiynau i'w dadansoddi ymhellach mewn Achos Busnes Amlinellol. Dylai'r rhestr fer o opsiynau **bob amser** gynnwys opsiwn '*status quo*'/gwneud y lleiafswm' ac mae'n bwysig nodi y gall yr opsiwn hwn fod yn un damcaniaethol na fyddai fel arall yn cael ei ystyried ond sy'n rhoi sefyllfa wrthffeithiol glir i lunio newid ychwanegol a gyflawnir gan bob opsiwn amgen.

Cyfeiriwch at **Atodiad 1a** am ragor o fanylion am y broses o arfarnu opsiynau. Fframwaith Opsiynau – Mae enghraifft wedi'i chwblhau yn **Atodiad 4**.

- Ar y cam hwn, dylid cynnal dadansoddiad gwerth am arian lefel uchel. Dylai hwn fod yn gymesur ac nid yw'n gofyn am waith modelu meintiol llawn ond, yn lle hynny, dylai asesu'r opsiynau yn ansoddol a hefyd ddangos pa opsiwn sy'n sicrhau'r gwerth cymdeithasol net gorau o'i gymharu â'r llinell sylfaen, gan gymhwyso addasiad tuedd optimistiaeth synhwyrol. Dylai'r gwaith hwn olygu bod modd nodi'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio ar y pryd, yn amodol ar ddadansoddiad manylach yn yr Achos Busnes Amlinellol.

### 2.3.3 Yr Achos Masnachol

<u>Prosiectau a ariennir gan Gyllid Cyfalaf</u>

Rhaid ichi nodi'ch llwybr caffael arfaethedig yn glir. Y dull arferol a gofynnol yw defnyddio un o'r Fframweithiau Caffael Rhanbarthol dynodedig, sydd â'r nod o gefnogi proses gaffael deg a thryloyw a rhoi cyfleoedd i gontractwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP)
- Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRCF)
- Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (NWCP)

Disgwylir i chi ddefnyddio'r fframweithiau hyn ym mhob achos. O dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes modd defnyddio fframwaith, rhaid rhoi cyfiawnhad clir a chadarn. Rhaid nodi'r rhesymau a'r dull caffael amgen a fabwysiadwyd yn fanwl. Rhaid hysbysu'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn sicrhau bod amcanion y Rhaglen yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u cysoni.

<u>Prosiectau a ariennir gan Gyllid Refeniw</u>

Mae'r broses o gaffael WEPCo eisoes wedi'i chwblhau. Dylid cynnwys datganiad sy'n cadarnhau y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r isod:
- Y Cytundeb Partneriaeth Strategol
- Y Cytundeb Prosiect safonol

<u>Gwerth Cymdeithasol</u>

Rhaid ichi amlinellu sut y byddwch yn ymdrin â Gwerth Cymdeithasol, gan gyfeirio at y Ddogfen Ganllaw ar Werth Cymdeithasol. Dylech ddangos sut y bydd eich dull gweithredu yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Rhaglen ac yn sicrhau canlyniadau ystyrlon i gymunedau

yng Nghymru.

Os yw'n hysbys ar y cam hwn, dylai'r cais a gyflwynir gennych gynnwys datganiad ynglŷn â sut y bydd partneriaid yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo:

- Cyfleoedd i is-gontractwyr ar gyfer busnesau yng Nghymru;
- Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant;
- Defnyddio a chyflenwi deunyddiau o Gymru

Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i asesu effaith bosibl eich cynnig a'i gyfraniad at nodau cymdeithasol ac economaidd ehangach y Rhaglen.

Cyfrif Banc Prosiectau

Rhaid ichi wneud y canlynol:

- Cadarnhau y bydd Cyfrif Banc Prosiectau yn cael ei gymhwyso at y prosiect, yn unol â'r polisi ynglŷn â Chyfrifon Banc Prosiectau.

Os bwriedir defnyddio Cyfrif Banc Prosiectau, rhaid ichi hefyd gadarnhau y bydd yn cael ei gymhwyso tra pery'r contract, gan sicrhau tryloywder, taliadau prydon, a diogelwch ariannol ar gyfer y gadwyn gyflenwi.

### 2.3.4 Yr Achos Ariannol

Ar y cam hwn, dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ei hangen. Dylech:

- nodi cost amcangyfrifedig y ffordd ymlaen a ffefrir wedi'i rhannu dros flynyddoedd ariannol drwy gyflwyno'r adran gyllid ar Ffurflen Wybodaeth y Prosiect yn **Atodiad 8**.
- nodi sut y caiff elfen y partner cyflawni ei hariannu. Er enghraifft, cronfeydd wrth gefn, benthyca, Adran 106.

A yw'r prosiect yn rhan o waith caffael swp? Os nad yw, pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r dull gweithredu hwn? A yw'r golled ariannol o beidio â mabwysiadu'r dull hwn wedi'i hasesu?

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, fel arfer hyd at uchafswm o 65% ac 81% ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw o gost hollgynhwysol. Nodir y gost adeiladu fesul $m^2$ a chostau Dodrefn, Gosodiadau a Chyfarpar a TG fesul disgybl yn Atodiad 6. Pennir yr arwynebeddau mwyaf a argymhellir yng Nghanllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig tynnu sylw at unrhyw gostau annormal tebygol sylweddol ar y cam Achos Amlinellol Strategol lle y bo modd er mwyn sicrhau nad yw hyn yn creu unrhyw oedi ychwanegol wrth gymeradwyo eich achosion busnes.

Cyfeiriwch at y **Safon Costau a Maint** (**Atodiad 6 a 6a**) am restr lawn o'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn costau prosiect a'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gostau annormal.

### 2.3.5 Yr Achos Rheoli

Dylai hwn egluro sut y caiff y cynllun ei lywodraethu a sut mae'n rhan annatod o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach. Dylai esbonio

hefyd sut caiff y prosiect ei reoli o fewn yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach, yr adnoddau sydd eu hangen a'r risgiau o ran cyflawni'r prosiectau a sut y caiff y risgiau hynny eu rheoli.

**Adrodd ar Werth Cymdeithasol**

Rhaid ichi gadarnhau y bydd tîm y prosiect yn:

- Cofnodi data Gwerth Cymdeithasol yn unol â Dogfen Ganllaw Gwerth Cymdeithasol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gyflwyno adroddiadau bob dau chwarter, bob blwyddyn ac ar adeg yr Adroddiad Cau i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 2.4 Yr Achos Busnes Amlinellol

Prif ddiben yr Achos Busnes Amlinellol yw:

- edrych eto ar yr Achos Amlinellol Strategol, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau neu gadarnhau nad oes unrhyw newidiadau
- pennu'r opsiwn sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian (byddai hynny wedi'i wneud yn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw)
- amlinellu'r fargen ac asesu fforddiadwyedd
- dangos bod modd cyflawni'r cynllun arfaethedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:
    - diweddaru'r achos strategol os yw hynny'n briodol
    - gwneud arfarniad buddsoddi o fewn yr achos economaidd
    - cwblhau'r achosion masnachol, ariannol a rheoli, gyda chofrestrau o fanteision a risgiau ategol.

Erbyn cam yr Achos Busnes Amlinellol, byddwch eisoes wedi gwneud ymchwiliad safle ac wedi mynd i gostau dylunio a rheoli.

Ar adeg cymeradwyo eich Achos Busnes Amlinellol, bydd gennych hawl i hawlio am gostau cymwys rydych wedi mynd iddynt hyd hynny. Fodd bynnag, byddai proses safonol yn cynnwys unrhyw wariant cymwys ar ffurflenni hawlio chwarterol unwaith y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi cael cymeradwyaeth weinidogol. Os bydd angen cyllid cyn hyn, cysylltwch â thîm Cyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Dylid cwblhau Templed Costau Prosiect a'i gyflwyno ar yr un pryd â'r Achos Busnes Amlinellol. Caiff y templedi hyn eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb â Safon Costau a Maint y Rhaglen.

Cyfeiriwch at y **Templed Costau Prosiect (Atodiad 7a).** Am restr lawn o'r hyn y dylid ei gynnwys yn yr Achos Busnes Amlinellol, cyfeiriwch at **Dempled yr Achos Busnes (Atodiad 1a).**

### 2.4.1 Crynodeb gweithredol

Rhaid cyflwyno ffurflen Crynodeb Gweithredol wedi'i diweddaru ochr yn ochr ag achos busnes y prosiect.

### 2.4.2 Yr Achos Strategol

Ar gam yr Achos Busnes Amlinellol, efallai y bydd angen nodi unrhyw newidiadau i'r Achos Strategol ers cam yr Achos Amlinellol Strategol.

Pan fo cynllun Carbon Sero Net yn cael ei gynnig gan awdurdod, dylid cwblhau'r offeryn meintioli sy'n cydymffurfio â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Bydd yr offeryn hwnnw'n llywio ystyriaeth o werth am arian yr ymyriadau arfaethedig, neu fel arall. Nodir y bydd y daenlen yn cynhyrchu costau, a bydd gofyn i lunwyr polisïau/penderfyniadau asesu derbynioldeb neu annerbynioldeb y costau hynny yn ôl yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Ceir rhagor o wybodaeth am Garbon Sero Net yn **Atodiad 10a**.

### 2.4.3 Yr Achos Economaidd

Ar gam yr Achos Busnes Amlinellol, mae'n hanfodol bod Achos Economaidd cynhwysfawr, sy'n argyhoeddi, yn cael ei ddarparu.

Ar bob cam o'r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tabl o Fanteision i'r Ysgol** neu'r **Sefydliad Addysg Bellach (Atodiad 2)** i nodi'r sefyllfa bresennol a'r effaith y bydd eich opsiynau gwahanol yn ei chael.

**Yr opsiynau ar y rhestr fer**

Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, rhowch yr opsiynau sydd ar y rhestr fer eto, fel y'u nodwyd yn yr Achos Amlinellol Strategol. Dylid tynnu sylw at unrhyw newidiadau. Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, dylech gadarnhau mai eich opsiwn a ffefrir yw'r opsiwn a ffefrir o hyd.

Dylai'r arfarniad economaidd roi trosolwg o'r prif gostau a manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau ar y rhestr fer. Bydd dadansoddiad ariannol manwl yn ategu hyn. Gweler **Templed yr Arfarniad o Opsiynau – enghraifft wedi'i chwblhau (Atodiad 4)** a **Thempled yr Arfarniad o Opsiynau – gwag (Atodiad 5). Ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw byddai hwn wedi'i gwblhau ar gam yr Achos Amlinellol Strategol.**

Mae gwybodaeth am gostau ac eithriadau wedi'i chynnwys yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF o dan 'Guidance on Options Appraisals' Dylai ysgol neu goleg sy'n cael ei godi'n newydd gael ei asesu dros gyfnod o drigain mlynedd. Dylid asesu gwaith adnewyddu ysgol neu goleg dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Pan fo arfarniad o opsiynau yn cynnwys opsiynau i godi adeilad newydd ac opsiynau adnewyddu, mae'n arfer da eu hasesu dros gyfnod cyson o 60 mlynedd, a dylai'r opsiwn adnewyddu ymgorffori lwfans ailfuddsoddi ar flwyddyn 30 i adlewyrchu ei oes fyrrach fel ased. Nid oes angen gwneud yr addasiad hwn os bydd pob opsiwn yn un adnewyddu yn unig.

Yn ogystal â chostau a manteision mesuradwy, dylid hefyd ddadansoddi'r manteision ansoddol. Dylid gwneud hyn drwy nodi'r meini prawf o ran manteision mewn perthynas â phob un o'r amcanion buddsoddi.

Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd orau o gyflwyno'ch canfyddiadau drwy'r achos cyfan ar gael yn **Atodiad 2.** Dylid cynnwys Tabl 2 o Atodiad 2 yn brif gorff eich achos economaidd er mwyn helpu i sicrhau bod asesiad cynhwysfawr wedi'i ddarparu.

**Arfarniad Risg**

**Risg wedi'i meintioli – arian wrth gefn**
Mae'r risgiau hyn yn rhai mesuradwy a rhagweladwy yn yr ystyr bod modd eu hamcangyfrif o ran tebygolrwydd a gwerth ariannol. Ar gyfer pob risg, dylid asesu sut i liniaru costau neu asesu'r gost ddisgwyliedig pe bai'r risg yn codi a chynnwys hynny fel arian wrth gefn yn amlen gostau gyffredinol opsiwn.

**Risg heb ei meintioli – tuedd optimistiaeth**
Mae hyn yn cyfrif am ffactorau anhysbys neu a danamcangyfrifwyd er mwyn adlewyrchu'r duedd i fod yn rhy optimistaidd am gostau, manteision ac amserlenni. Yn ôl y Llyfr Gwyrdd, rhaid defnyddio'r amcangyfrif uchaf cychwynnol o duedd optimistiaeth ar gyfer y math o brosiect y gellir ei leihau wrth i risgiau gael eu meintioli a'u lliniaru. Gall hyn amrywio rhwng opsiynau. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn glir er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfrif dwbl.

**Asesiad risg ansoddol**
Yn ddelfrydol, dylai'r risgiau gael eu mesur (mewn £oedd) ym mhob achos a dylid asesu'r risgiau anfesuradwy fel yr amlinellwyd yn **Atodiad 1a**. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai na fydd modd gwneud hyn felly dylid cynnal asesiad risg ansoddol. Er mwyn gwneud hyn, dylai arfarnwyr nodi'n systematig y risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a'u blaenoriaethu, a chategoreiddio'r risgiau hyn (e.e., strategol, gweithredol, ariannol), rhoi disgrifiad clir o bob risg a'u hasesu yn seiliedig ar effaith y risg a'r tebygolrwydd y bydd yn codi. Mae hyn yn rhoi cyfle i sgorio/pennu safle risg pob opsiwn yn glir er mwyn helpu i flaenoriaethu a gwneud penderfyniadau.

Ar ôl dadansoddi'r tair elfen: Economaidd, Manteision a Risg, dylid pennu safle cyffredinol ar gyfer yr opsiynau. Ceir tablau enghreifftiol i gyflwyno canlyniadau pob elfen o'r dadansoddiad yn **Atodiad 1a**.

Yna, dylid dod i'r casgliad a rhoi datganiad cryno sy'n rhoi naratif clir o'r rhesymau dros yr opsiwn a ffefrir.

**Dadansoddiad sensitifrwydd**
Mae'n bwysig profi sensitifrwydd yr opsiwn a ffefrir drwy:

- ‘gyfnewid gwerthoedd’
- cynllunio / dadansoddi senarios ('beth petai') drwy newid gwerthoedd y costau a'r manteision 'ansicr' i weld yr effaith ar safle'r opsiynau drwyddi draw.

Dylid cofnodi canlyniadau'r profion hyn yn yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf, ac yn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, a dweud hefyd a yw hyn wedi newid safle'r opsiwn a ffefrir.

### 2.4.4 Yr Achos Masnachol

Dylai'r adran hon o'r Achos Busnes Amlinellol amlinellu'r fargen arfaethedig yng nghyswllt yr opsiwn a ffefrir a ddewiswyd yn yr Achos Economaidd. Dylai edrych eto ar Achos Masnachol yr Achos Amlinellol Strategol er mwyn adeiladu ar y canlynol a'u pwysleisio:

<u>Prosiectau a ariennir gan Gyllid Cyfalaf</u>

Rhaid ichi nodi'ch llwybr caffael arfaethedig yn glir. Y dull arferol a gofynnol yw defnyddio un

o'r Fframweithiau Caffael Rhanbarthol dynodedig, sydd â'r nod o gefnogi proses gaffael deg a thryloyw a rhoi cyfleoedd i gontractwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP)
- Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRCF)
- Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (NWCP)

Disgwylir i chi ddefnyddio'r fframweithiau hyn ym mhob achos. O dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes modd defnyddio fframwaith, rhaid rhoi cyfiawnhad clir a chadarn. Rhaid nodi'r rhesymau a'r dull caffael amgen a fabwysiadwyd yn fanwl. Rhaid hysbysu'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn sicrhau bod amcanion y Rhaglen yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u cysoni.

Prosiectau a ariennir gan Gyllid Refeniw

Mae'r broses o gaffael WEPCo eisoes wedi'i chwblhau. Dylid cynnwys datganiad sy'n cadarnhau y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r isod:

- Y Cytundeb Partneriaeth Strategol
- Y Cytundeb Prosiect safonol

Gwerth Cymdeithasol

Rhaid ichi amlinellu sut y byddwch yn ymdrin â Gwerth Cymdeithasol, gan gyfeirio at y Ddogfen Ganllaw ar Werth Cymdeithasol. Os yw'n hysbys ar y cam hwn, dylid cynnwys datganiad ynglŷn â sut y bydd partneriaid yn hyrwyddo:

- Cyfleoedd i is-gontractwyr ar gyfer busnesau yng Nghymru;
- Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant;
- Cyflenwi deunyddiau o Gymru

Ar y cam hwn, dylech nodi anghenion penodol y gymuned lle mae'r prosiect wedi'i leoli. Dylech nodi heriau economaidd-gymdeithasol lleol, e.e. lefelau uchel o ddigartrefedd, diweithdra ymhlith pobl ifanc, neu anweithgarwch economaidd hirdymor. Mae'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar le yn sicrhau mai'r rhai sydd eu hangen fwyaf sy'n gweld manteision y buddsoddiad fwyaf, a bod y prosiect yn cyfrannu mewn ffordd ystyrlon at dwf cynhwysol a llesiant yn yr ardal.

Cyfrif Banc Prosiectau

Rhaid ichi wneud y canlynol:

- Cadarnhau y bydd Cyfrif Banc Prosiectau yn cael ei gymhwyso at y prosiect, yn unol â'r polisi ynglŷn â Chyfrifon Banc Prosiectau.

Os bwriedir defnyddio Cyfrif Banc Prosiectau, rhaid ichi hefyd gadarnhau y bydd yn cael ei gymhwyso tra pery'r contract, gan sicrhau tryloywder, taliadau prydon, a diogelwch ariannol ar gyfer y gadwyn gyflenwi.

### 2.4.5 Yr Achos Ariannol

Diben yr adran hon yw nodi goblygiadau ariannol yr opsiwn a ffefrir fesul blwyddyn ariannol (fel y'u nodwyd yn adran yr achos economaidd) a'r fargen arfaethedig (fel y'i disgrifiwyd yn yr achos masnachol).

Gan fod Llywodraeth Cymru yn talu am o leiaf 65% o gostau prosiectau a ariennir gan

gyllid cyfalaf ac 81% o daliadau gwasanaeth blynyddol prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae'n bwysig inni fod yn hyderus fod cyllid y prosiect sy’n weddill yn fforddiadwy. Gall cyfraniad Llywodraeth Cymru gael ei gapio a disgwylir i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gyflawni prosiect o fewn y gyllideb hon.

Ar yr adeg hon yn natblygiad y prosiect, dylai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach nodi'r ffynonellau arian cyfatebol a chadarnhau ymrwymiad i hynny gan y partïon perthnasol yn yr awdurdod lleol / sefydliad addysg bellach.

Er enghraifft:
Derbyniadau Cyfalaf: A yw'r rhain wedi dod i law? A ydynt wedi'u clustnodi ar gyfer y prosiect? Os nad yw’r ased wedi'i werthu eto, beth yw sail y prisiad? Pryd y bydd yr arian o'r gwerthiant yn dod i law? A fydd amseriad unrhyw werthiant yn effeithio ar lif arian y prosiect?

Cyllid Cyfalaf/Refeniw: A yw'r Cabinet / Bwrdd wedi ymrwymo i hyn? Os felly, pa bryd y cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw? Os nad yw, pa bryd fydd y cynnig hwn yn mynd gerbron y Cabinet / Bwrdd iddo ymrwymo iddo? Dylech gynnwys y cofnodion.

Benthyca Darbodus / Arall: A yw'r benthyciad wedi'i sicrhau? A oes ffrwd refeniw wedi'i nodi i ariannu'r benthyciad? A oes dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i wneud i sicrhau bod y benthyciad yn fforddiadwy pe bai unrhyw amgylchiadau'n newid?

Ym mhob achos, dylai taliadau cyfalaf, TAW, a chostau risg (unrhyw arian wrth gefn neu lwfans ar gyfer addasiadau risg a thuedd optimistiaeth) gael eu dangos ar wahân. O ran TAW dylid ceisio arweiniad ar y goblygiadau gan CThEF er mwyn sicrhau bod cost lawn y prosiect yn cael ei hadlewyrchu yn y cais a'i hadlewyrchu yn yr adran gywir o'r rhagamcan cyllido.

Bydd angen ichi fanylu ar y llif arian gan ddangos effaith y gwariant cyfalaf, ac arbedion refeniw ac unrhyw ad-daliadau llog.

Dylid hefyd nodi'n glir beth fydd yr effaith ar y datganiad cyfrifon – a yw'r ased ar fantolen y partner cyflawni neu drydydd parti?

Cynhwyswch lif arian wedi'i ddiweddaru a gynhwyswyd yn Ffurflen Wybodaeth y Prosiect ar y cam Achos Busnes Amlinellol.

### 2.4.6 Yr Achos Rheoli

Mae'r adran hon o'r Achos Busnes Amlinellol yn ystyried a oes modd cyflawni'r cynllun. Ei ddiben, felly, yw adeiladu ar yr Achos Amlinellol Strategol drwy fanylu ymhellach ar y camau a fydd yn ofynnol i sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun yn llwyddiannus yn unol â'r arferion gorau.

Dylai'r adran hon gynnwys cadarnhad y bydd y prosiect yn cael ei reoli yn unol â methodoleg PRINCE 2 neu fethodoleg debyg, manylion am y sefydliad adrodd a'r strwythur ar gyfer y prosiect, manylion am rolau a chyfrifoldebau'r prosiect. Dylai hyn esbonio'r broses lywodraethu, y broses o reoli'r prosiect a'r adnoddau cyn, yn ystod ac ar ôl y broses gaffael.

Dylai'r disgrifiad o strwythur y prosiect gynnwys siart strwythur er mwyn i aseswyr ddeall y rolau a'r llinellau adrodd yn well.

Rhaid i'r adran hon gynnwys trosolwg o gynllun y prosiect, gan gynnwys cerrig milltir y

rhaglen gyflawni, a'r amserlenni ar gyfer ymgynghoriad statudol a gweithdrefnau, adeiladu a chwblhau.

Mae'n bwysig hefyd fod yr achos hwn yn rhoi'r trefniadau amlinellol ar gyfer rheoli'r contract, gwireddu manteision, rheoli risg a monitro a gwerthuso.

Dylid cyfeirio hefyd at Broses Adolygiad Gateway, a chadarnhau bod unrhyw argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

**Adrodd ar Werth Cymdeithasol**

Rhaid ichi gadarnhau y bydd tîm y prosiect yn cofnodi data Gwerth Cymdeithasol yn unol â Dogfen Ganllaw Gwerth Cymdeithasol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gyflwyno adroddiadau bob dau chwarter, bob blwyddyn ac ar adeg yr Adroddiad Cau i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 2.5 Achos Busnes Llawn

Caiff yr Achos Busnes Llawn ei gyflwyno ar ôl ymarfer caffael, ond cyn llofnodi'r contract, neu gyflwyno Cam 2 WEPCo ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, ond cyn awdurdodi WEPCo i gwblhau'r agweddau ariannol.

Prif ddiben yr Achos Busnes Llawn yw darparu tystiolaeth mai'r cynnig mwyaf manteisiol yn economaidd, sy'n cyfateb i'r achos strategol neu'r opsiwn a ffefrir (prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf), sy'n cael ei gaffael a'i fod yn fforddiadwy ac yn gyflawnadwy. Hefyd, mae'r Achos Busnes Llawn yn egluro hanfodion y fargen sydd wedi'i negodi ac yn dangos bod modd cyflawni'r allbynnau gofynnol yn llwyddiannus.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- adolygu'r achosion strategol ac economaidd a diweddaru manylion yr achos masnachol i adlewyrchu cyfnod caffael prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf a chyfnod datblygu Cam 2 ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw;
- cwblhau'r Achos Masnachol i gofnodi'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y darparwr gwasanaeth a ffefrir
- diweddaru unrhyw newidiadau i'r Achos Ariannol a sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli cadarn er mwyn gwireddu'r prosiect a'r adnoddau;
- cadarnhau unrhyw newidiadau i gostau'r prosiect ers yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf a'r rhesymau dros hyn, a rhoi diweddariad o’r model ariannol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw a bod y partïon sy'n talu am y cynllun wedi cadarnhau bod y risg a drosglwyddir yr un fath.

Dylid llenwi Ffurflen Wybodaeth y Prosiect, a'i chyflwyno, ynghyd â Thempled Costau Prosiect wedi'i ddiweddaru, wrth gyflwyno'r Achos Busnes Llawn. Mae Ffurflen Wybodaeth y Prosiect yn cyflwyno holl fanylion y prosiect, gan gynnwys costau a manteision, sy'n bwydo i mewn i'r llythyr grant terfynol a anfonir i'w lofnodi.

Gweler **Templed Cost y Prosiect (Atodiad 7b)** a **Ffurflen Wybodaeth y Prosiect (Atodiad 8).**

### 2.5.1 Crynodeb Gweithredol

Rhaid cyflwyno ffurflen Crynodeb Gweithredol wedi'i diweddaru ochr yn ochr ag achos busnes y prosiect.

**Yr Achos Strategol**

Cofiwch gyfeirio'n ôl at y Rhaglen Amlinellol Strategol, yr Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol, gan nodi unrhyw newidiadau allweddol ers i'r dogfennau hyn gael eu cynhyrchu a'u cymeradwyo.

### 2.5.2 Yr Achos Economaidd

Gan fod yr adran hon wedi cael ei chwmpasu'n fanwl ar gam yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiectau cyfalaf a'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, nid oes angen ailddatgan yr achos cyfan yn fanwl. Ond mae'n bwysig tynnu sylw at unrhyw newidiadau pwysig sydd wedi digwydd o bosibl ac ystyried a allai'r newidiadau gael effaith berthnasol ar safle'r opsiynau ar gam yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol a chofnodi'ch casgliadau. Ar y cam hwn, rhaid i'r dadansoddiad cost a mantais fod yn fanylach a rhoi Cost Bresennol Net/Gwerth Presennol Net mwy aeddfed, gan gynnwys costau wedi'u tendro terfynol a'r effaith gysylltiedig ar duedd optimistiaeth.

Ar bob cam o’r broses achos busnes, bydd gofyn i chi gwblhau **Tablau Buddion y Prosiect (Atodiad 2)** er mwyn nodi’r sefyllfa bresennol a’r effaith y bydd eich gwahanol opsiynau yn ei chael.

### 2.5.3 Yr Achos Masnachol

Mae'r adran hon o'r Achos Busnes Llawn yn nodi'r trefniadau a negodwyd ac yn cynnwys disgrifiad o'r gwasanaethau gofynnol a'r trefniadau trosglwyddo risg.

Rhaid ichi nodi'ch llwybr caffael arfaethedig yn glir. Y dull arferol a gofynnol yw defnyddio un o'r Fframweithiau Caffael Rhanbarthol dynodedig, sydd â'r nod o gefnogi proses gaffael deg a thryloyw a rhoi cyfleoedd i gontractwyr yng Nghymru. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru (SEWSCAP)
- Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru (SWWRCF)
- Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru (NWCP)

Disgwylir i chi ddefnyddio'r fframweithiau hyn ym mhob achos. O dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes modd defnyddio fframwaith, rhaid rhoi cyfiawnhad clir a chadarn. Rhaid nodi'r rhesymau a'r dull caffael amgen a fabwysiadwyd yn fanwl. Rhaid hysbysu'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn sicrhau bod amcanion y Rhaglen yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u cysoni.

Dylai'r adran hon hefyd nodi:

- Cadarnhad bod y ffurflen safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect wedi'i defnyddio ar gyfer prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw ac unrhyw randdirymiadau a wnaed, gan gynnwys yr awdurdod perthnasol a gafwyd

Gwerth Cymdeithasol

Yn yr Achos Busnes Llawn, rhaid ichi gyflwyno strategaeth Gwerth Cymdeithasol gynhwysfawr a phenodol ar gyfer y prosiect, sy'n cyd-fynd â'r Ddogfen Ganllaw Gwerth Cymdeithasol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Rhaid i'r adran hon gynnwys cadarnhad yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid, gan ddangos sut mae cymunedau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus wedi cael eu hystyried wrth ymdrin â Gwerth Cymdeithasol.

Dylai'r adran hon ddangos sut y bydd y prosiect yn sicrhau'r effaith gymdeithasol hirdymor fwyaf posibl, yn cyfrannu at lesiant lleol, ac yn helpu i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyfrif Banc Prosiectau

Dylai'r Achos Busnes Llawn gynnwys cynlluniau neu drefniadau'r Cyfrif Banc Prosiectau –

- Cadarnhau y bydd y gofyniad ynglŷn â Chyfrif Banc Prosiectau yn cael ei wneud/wedi cael ei wneud yn un o delerau'r contract;
- Cadarnhau'r banc a fydd yn cael ei ddewis/wedi cael ei ddewis i wasanaethu'r Cyfrif Banc Prosiectau;
- Sut y caiff taliadau'r Cyfrif Banc Prosiectau eu hawdurdodi – cyfrif ar y cyd neu unig gyfrif a sut y bydd y Cyfrif Banc Prosiectau yn cael ei sefydlu.

Gweler y polisi Cyfrifon Banc Prosiectau am ragor o wybodaeth.

### 2.5.4 Yr Achos Ariannol

Diben yr adran hon yw nodi goblygiadau ariannol pendant yr ateb yr ymrwymir iddo drwy gontract. Dylai gynnwys y trefniadau ariannol ar eu gwedd derfynol. Gan fod Llywodraeth Cymru yn talu am o leiaf 65% o gostau prosiectau a ariennir gan gyllid cyfalaf ac 81% o daliadau gwasanaeth blynyddol prosiectau a ariennir gan gyllid refeniw, mae'n bwysig inni fod yn hyderus fod cyllid y prosiect sy'n weddill yn fforddiadwy.

Ar yr adeg hon yn natblygiad y prosiect, dylai awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach nodi'r ffynonellau arian cyfatebol a chadarnhau ymrwymiad i hynny gan y partïon perthnasol yn yr awdurdod lleol / sefydliad addysg bellach.

Dylai gweddill yr Achos Ariannol gynnwys yr un lefel o fanylion â cham yr Achos Busnes Amlinellol ond gyda mwy o sicrwydd a dylai dynnu sylw at unrhyw newidiadau neu risgiau a gadarnhawyd ers i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gymeradwyo.

Dylai costau'r prosiect gael eu rhannu yn unol â'r Achos Busnes Amlinellol, ond ar y cam hwn byddem yn disgwyl gweld gwerth contract ôl-dendro. Rhaid cynnwys **Ffurflen Wybodaeth y Prosiect (Atodiad 8)** ar y cyd â'r costau terfynol fesul blwyddyn ariannol, a gaiff eu pennu ar ôl negodi'r contract.

### 2.5.5 Yr Achos Rheoli

Dylai'r achos hwn gynnwys y trefniadau terfynol ar gyfer rheoli'r prosiect, gwireddu'r manteision, cofrestr risg, rheoli'r contract ac Adolygiadau Gateway.

Dylid edrych eto ar gynllun y prosiect, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer dyfarnu'r contract,

adeiladu a chwblhau.

I gael gweld rhestr gyflawn o'r hyn i'w gynnwys yn yr Achos Busnes Llawn, gweler y **Templed Achos Busnes (Atodiad 1)**.

**Adrodd ar Werth Cymdeithasol**

Rhaid ichi gadarnhau y bydd tîm y prosiect yn cofnodi data Gwerth Cymdeithasol yn unol â Dogfen Ganllaw Gwerth Cymdeithasol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan gyflwyno adroddiadau bob dau chwarter, bob blwyddyn ac ar adeg yr Adroddiad Cau i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 2.6 Achos Cyfiawnhad Busnes

Mae'r Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei gadw ar gyfer prosiectau sy'n werth llai na chyfanswm o £7.5 miliwn.

Fel achos busnes cam unigol, dylai'r Achos Cyfiawnhad Busnes ymdrin â'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gam yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol/Achos Busnes Llawn yn ddigon manwl fel bod modd ystyried yr achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli mewn un ddogfen.

Bydd angen yr atodiadau canlynol ochr yn ochr â'r Achos Cyfiawnhad Busnes:

- Ffurflen Crynodeb Gweithredol
- Templed Manteision y Prosiect
- Templed Costau Prosiect
- Ffurflen Wybodaeth y Prosiect

I weld rhestr gyflawn o'r hyn i'w gynnwys yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes, gweler y **Templed Achos Busnes (Atodiad 1)**.

### 2.6.1 Yr Achos Strategol

Dylai achos strategol yr Achos Cyfiawnhad Busnes nodi cyd-destun strategol y buddsoddiad a'r achos o blaid newid yn yr un fformat ag sy'n ofynnol o dan yr Achos Amlinellol Strategol, gan gynnwys ystyried amcanion buddsoddi'r Rhaglen a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

### 2.6.2 Yr Achos Economaidd

Dylai'r Achos Cyfiawnhad Busnes gyfuno'r arfarniadau economaidd o Achos Amlinellol Strategol ac Achos Busnes Amlinellol. Byddai hyn yn golygu arfarniad o'r opsiynau i nodi opsiwn a ffefrir. Cofiwch:

- Dylid ystyried **pedwar opsiwn** o leiaf, yn cynnwys 'busnes fel arfer' neu'r 'status quo' (oni bai fod rhesymau cymhellol i'r gwrthwyneb)
- Yn dibynnu ar natur y buddsoddiad, gallai'r opsiynau hyn fod yn wahanol o ran eu cwmpas busnes posibl, y datrysiad gwasanaeth, darparu gwasanaeth, a threfniadau gweithredu ac ariannu.

- Dylai'r arfarniad buddsoddi ar gyfer pob opsiwn gynnwys:

- Dadansoddiad o gostau pob opsiwn
- Dadansoddiad o fanteision meintiol pob opsiwn
- Dadansoddiad o fanteision ansoddol pob opsiwn
- Dadansoddiad o'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn

Oni bai bod cytundeb ymlaen llaw wedi'i wneud gyda'r tîm rhaglen, gofynnir i chi gynnal dadansoddiad GPN a chyflwyno'r templed yn Atodiad 5.

**Yr opsiwn a ffefrir**
Ar sail yr uchod:

- Dywedwch pam mae'r opsiwn sy'n cael ei argymell yn rhoi'r gwerth gorau am arian.
- Disgrifiwch y gwasanaethau a/neu'r asedau sy'n ofynnol.

### 2.6.3 Yr Achos Masnachol

Dylai'r Achos Masnachol ar gam yr Achos Cyfiawnhad Busnes gadarnhau'r llwybr caffael a ddewiswyd.

Dywedwch sut y caiff yr ased neu'r gwasanaeth ei gaffael yn unol â chyfarwyddebau'r UE, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a pholisi caffael Cymru fel y'i hamlinellir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru gan gyfeirio at:

- Canllawiau Gwerth Cymdeithasol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy;
- Defnydd o Gyfrif Banc Prosiectau yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am Gyfrifon Banc Prosiectau yma.

### 2.6.4 Yr Achos Ariannol

Dylai achos ariannol yr Achos Cyfiawnhad Busnes gynnwys yr un manylder ag sy'n ofynnol o dan yr Achos Busnes Llawn, ac felly dylai gynnwys costau prosiect terfynol / wedi'u tendro.

Nodwch y canlynol:

- Costau cyfalaf a refeniw'r buddsoddiad arfaethedig
- Sut y caiff y buddsoddiad ei ariannu, gan gynnwys ffynonellau cyfraniad yr awdurdod lleol/coleg

- Cwblhewch y **Templed Costau Prosiect (Atodiad 7b)** a **Ffurflen Wybodaeth y Prosiect** (**Atodiad 8)** yn y cais a gyflwynir gennych.

### 2.6.5 Yr Achos Rheoli

Dylai'r achos rheoli yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes fanylu ar y trefniadau terfynol ar gyfer cyflawni'r prosiect a sicrwydd.
Nodwch sut y bydd y buddsoddiad yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus a chyfeiriwch yn arbennig at:

- Y trefniadau rheoli prosiect
- Y trefniadau sicrwydd busnes
- Monitro gwireddu manteision

- Adrodd ar Werth Cymdeithasol
- Rheoli risg
- Cerrig milltir y prosiect / rhaglen
- Gwerthuso ôl-brosiect
- Cynlluniau wrth gefn

## 3. Y broses asesu

Mae'r broses o asesu Achos Busnes yn mynd drwy broses dri cham.

- Grŵp Craffu ar Achosion Busnes
- Panel Buddsoddi mewn Addysg, a fynychir gan Ddirprwy Gyfarwyddwyr o'r Gyfarwyddiaeth Addysg ac o adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru;
- Cymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

### 3.1 Grŵp Craffu ar Achosion Busnes

Cynhelir cyfarfodydd bob deufis, ac fel arfer trefnir iddynt gael eu cynnal yng nghanol y mis. Mae angen i achosion busnes gael eu cyflwyno o leiaf 2 wythnos cyn dyddiad cyfarfod y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes. Bydd hyn yn sicrhau bod aelodau'r Grŵp yn cael digon o amser i asesu achosion unigol. Os cânt eu cefnogi, bydd achosion busnes wedyn yn symud ymlaen at y Panel Buddsoddi mewn Addysg. Mae arweinwyr polisi ac arbenigwyr technegol o bob rhan o Lywodraeth Cymru yn mynychu'r Grŵp. Yn benodol, mae'r grŵp yn edrych ar yr achosion ac yn eu hasesu o ran cysondeb â strategaeth Llywodraeth Cymru, y gallu i gyflawni, achos economaidd cryf, strategaeth fasnachol a fforddiadwyedd.

Lle mae'r Grŵp yn nodi mater sy'n debygol o effeithio ar allu'r Panel Buddsoddi i wneud penderfyniad, gofynnir am ragor o wybodaeth gan yr awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach ar ffurf atodiad.

### 3.2 Y Panel Buddsoddi

Mae'r grŵp hwn hefyd yn cwrdd bob deufis, gyda'r cyfarfodydd wedi'u trefnu am yn ail fis i'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir drwy'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes cyn cyfarfod y Panel Buddsoddi.

Mae'r Panel Buddsoddi yn adolygu achosion ac yn ystyried canfyddiadau'r Grŵp Craffu ar Achosion Busnes.

Bydd achosion nad ydynt yn cael eu cymeradwyo gan y Panel yn cael eu cyfeirio'n ôl at y partneriaid cyflawni i gael rhagor o wybodaeth.

### 3.3 Cymeradwyaeth Weinidogol

Caiff yr achosion hynny y mae'r Panel Buddsoddi yn argymell y dylid eu cymeradwyo eu cyfeirio at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am benderfyniad ffurfiol. Mewn rhai achosion, gallai cymeradwyaeth hefyd gael ei chyfeirio at y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch a Gweinidogion eraill lle y bo'n briodol.

# 4. Y broses o gymeradwyo prosiect

## 4.1 Llythyr grant

Ar ôl i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gymeradwyo, gellir cyflwyno cais am gostau cymwys yr aed iddynt mewn perthynas ag ymchwiliadau safle a ffioedd dylunio a rheoli i dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy er mwyn i'r cais gael ei ystyried gan y Panel Buddsoddi mewn Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo, anfonir llythyr grant atoch sy'n nodi'r swm y gallwch ei hawlio ar y pwynt hwn.

Gall unrhyw grant a roddir ar y pwynt hwn yn natblygiad y prosiect gael ei adfachu os na chaiff y prosiect ei gymeradwyo yn yr Achos Busnes Llawn.

Unwaith y bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo, bydd llythyr dyfarnu grant yn cael ei anfon, a fydd yn cynnwys rhagamcan cyllido amcangyfrifedig gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y rhagamcanion o lif arian a gyflwynwyd. Bydd angen i'r rhain gael eu llofnodi a'u dyddio gan lofnodwyr awdurdodedig cyn y gellir cynnwys y cyllid yn yr hawliadau chwarterol.

## 4.2 Amodau

Mae nifer o amodau grant penodol y mae angen i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach fod yn ymwybodol ohonynt wrth gyflwyno achosion busnes. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

### 4.2.1 Gwerth Cymdeithasol

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i greu economi fywiog a chynhwysol drwy sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith yn sicrhau manteision ystyrlon i'r cymunedau ledled Cymru. Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn anelu at gyflawni Amcanion Buddsoddi ei Rhaglen, ac wrth wneud hynny, gyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi datblygu ei metrigau Gwerth Cymdeithasol yn ddiweddar. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion craidd i'r Rhaglen gyfan a metrigau seiliedig ar le sydd wedi'u teilwra at anghenion y gymuned leol.

Caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi at dri diben allweddol:

- Dangos effaith ehangach y Rhaglen ar gymunedau yng Nghymru;
- Nodi a rhannu arferion da;
- Llywio penderfyniadau buddsoddi a pholisi yn y dyfodol.

Mae'n ofynnol i bartneriaid roi diweddariadau i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gynnydd yn erbyn targedau bob deufis (Chwarter 2 a Chwarter 4) ac Adroddiadau Blynyddol. Mae templedi ar gyfer y rhain yn y Canllawiau Gwerth Cymdeithasol.

Dylai'r rhain gael eu cyflwyno 3 wythnos ar ôl cwblhau'r chwarter. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Canllawiau Gwerth Cymdeithasol.

Cyn cyflwyno Achosion Busnes Llawn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach roi manylion am amcanion Gwerth Cymdeithasol y prosiect. Dylai'r manylion hyn gael eu cynnwys yn Ffurflen Wybodaeth y Prosiect.

### 4.2.2 Cyfrifon Banc Prosiectau

Mae polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl bwysig is-gontractwyr BBaCh wrth gyflawni prosiectau o fewn y sector cyhoeddus a phwysigrwydd talu partneriaid yn y gadwyn gyflenwi mewn ffordd deg a phrydlon. Mae Cyfrifon Banc Prosiectau yn cefnogi polisi Manteision Cymunedol Llywodraeth Cymru ac yn benodol yn hyrwyddo arferion busnes moesegol sy'n gwneud Cymru yn lle da i fyw, gweithio a gwneud busnes. Mae Cyfrifon Banc Prosiectau yn ddull o sicrhau taliadau teg a phrydlon drwy gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus.
Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi'r nodau hyn ac mae wedi gwneud y defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau yn unol â'r polisi Cyfrifon Banc Prosiectau yn amod cyllid i bob prosiect sy'n ceisio cyllid o dan y Rhaglen.

### 4.2.3 Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a Thystysgrifau Perfformiad Ynni

Nodir gofynion BREEAM sy'n gymwys i bob prosiect lle y defnyddir grantiau Llywodraeth Cymru isod:

- Mae gwaith adeiladu o lai na 250m$^2$ wedi'i eithrioond bydd yn fuddiol o hyd iddo gymhwyso egwyddorion BREEAM.
- Dylai gwaith rhwng 251m$^2$ a 1,000m$^2$ ddilyn egwyddorion BREEAM ond nid oes angen ei ardystio. Mae Rhan L+10% yn ofynnol (gwelliant o 10% dros y Gyfradd Allyrru Darged (TER) ar gyfer y Rhan L bresennol o'r Rheoliadau Adeiladu).
- Bydd angen i bob adeilad newydd 1001m$^2$ i 2000m$^2$ gael sgôr 'Da iawn' BREEAM gyda 'Rhagorol' ar gyfer Credydau Ynni (ENE01) fel gofyniad sylfaenol.
- Bydd angen i brosiectau 2001m$^2$ a throsodd gael sgôr 'Rhagorol'.
- Bydd estyniadau sylweddol ac annibynnol o 2001m$^2$ a throsodd yn cael eu hasesu fel gwaith adeiladu newydd.
- Bydd gwaith adnewyddu mawr neu waith integredig o 2001m$^2$ a throsodd yn cael eu hasesu o dan Adnewyddu a Gorffen, neu feini prawf Pwrpasol.

Os rhagwelir, wrth adeiladu prosiect newydd, na fydd modd cael y sgôr perthnasol o dan BREEAM, yna bydd angen i'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach roi gwybod yn gyntaf i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan y gallai hynny effeithio ar y cyllid grant sydd ar gael. Byddai angen achos busnes i gefnogi unrhyw wyro oddi wrth sicrhau'r sgôr ofynnol. Bydd angen cymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet ym mhob achos.

### 4.2.4 Diogelwch tân

Mae Rhan B o'r Rheoliadau Adeiladu yn cyfeirio at ddiogelwch tân ac mae'n gymwys i bob adeilad ysgol a choleg newydd, cynlluniau adnewyddu mawr ac estyniadau. Mae Bwletin Adeiladu 100 hefyd yn gymwys i bob prosiect ysgol. Ym mhob achos anogir awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i drafod y gosodiadau diogelwch tân gyda'u swyddog diogelwch tân lleol.

Un o'r amodau ar gyfer cael cyllid yw bod chwistrellwyr dŵr yn cael eu hymgorffori ym mhob prosiect ysgol a choleg 'newydd' (annibynnol neu estynedig) dros 250m$^2$ a/neu lle mae ailfodelu sylweddol yn digwydd.

Lle mae ailfodelu ysgol yn golygu uwchraddio seilwaith presennol yr ysgol yn helaeth, dylai chwistrellwyr dŵr gael eu gosod. Lle mae awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn ansicr o'r gofyniad mewn perthynas â gwaith ailfodelu, dylent gysylltu â'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

O ran systemau dŵr 'mygu niwl mân', dylent gydymffurfio â Safon Brydeinig BS 8458. Pe baech yn dewis gosod system o'r fath byddai angen cyflwyno achos busnes priodol i'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

#### 4.2.5 Acwsteg (BB93)

Mae profi acwstig, i ddangos eich bod yn cydymffurfio â Bwletin Adeiladu 93 (BB93), yn ofyniad o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a rhaid i bob ysgol sy'n cael grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ddangos ei bod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'r amod hwn hefyd yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gael prawf cyn cwblhau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â BB93. Ar hyn o bryd, mae profion acwstig yn argymhelliad o dan y Rheoliadau Adeiladu.

#### 4.2.6 Hygyrchedd

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn hyrwyddo mynediad i bawb. Disgwylir i ysgolion a sefydliadau addysg bellach sy'n cael eu cefnogi drwy'r Rhaglen sicrhau bod eu hadeiladau yn caniatáu mynediad i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr sy'n anabl. Yn ogystal â sicrhau mynediad i'r adeilad i bawb, mae'n bwysig hefyd sicrhau bod amgylcheddau effeithiol, yn yr awyr agored a dan do, yn hygyrch i ddysgu.

Mae pob llythyr cytundeb i godi ysgolion newydd ac adnewyddu hen ysgolion yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth ar gydraddoldeb a hygyrchedd. Mae yna gymal hefyd ar gyfle cyfartal, fel na chaiff yr ysgol na'r coleg fel darparwr gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig a ddiffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau statudol ar greu a chynnal cynlluniau hygyrchedd i ysgolion.

#### 4.2.7 Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Mae'n ofynnol i bartneriaid gyflwyno adroddiadau ar eu heffaith o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Caiff y rhan fwyaf o'r data hyn ei chasglu yn yr Adroddiad Cau, ond rhaid cyflwyno data gweithredol o dan y Broses Gwerthuso Adeiladau a Ddefnyddir.

Mae meysydd â ffocws yn cynnwys Lleihau Carbon, Trafnidiaeth (gan gynnwys Teithio Llesol), Gweithrediad Adeilad, yr Economi Gylchol, Cylch Oes Gweithredol a Bioamrywiaeth a Natur.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y canllawiau yn atodiad 11a.
Ceir rhagor o wybodaeth am Leihau Carbon isod, ynghyd â dolenni i atodiadau ategol.

#### Lleihau Carbon

Yn unol ag ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau carbon ac Adeiladau Sector Cyhoeddus Sero Net, mae'n ofynnol i bob prosiect ddangos technegau a thechnolegau lleihau carbon a chyflawni Lefel Weithredol Carbon Sero Net a chyrraedd y targed

perthnasol ar gyfer carbon ymgorfforedig fel y'i hamlinellwyd isod;

| **Blynyddoedd** | **Targed Carbon Ymgorfforedig** |
|---|---|
| **2025 - 2029** | O dan 600 kgCO2/m2 |
| **2030 - 2035** | O dan 350 $kgCO_2/m^2$ |
| **2035 - ymlaen** | I'w gadarnhau |

Bydd 100% o'r costau ychwanegol dros ben yn gymwys ar gyfer cyllid yn y don ariannu bresennol yn amodol ar feincnodau yn unol â'r **Meincnod Safon Cost (Atodiad 6)**. Dylai partneriaid cyflawni nodi eu cais yn eu hachos busnes a chwblhau'r **templed Prisiad Carbon Sero Net (Atodiad 10b).** Bydd angen i gyfrifiadau **Gwerth Presennol Net** (GPN) hefyd ddangos cost fesul tunnell o $CO^2$ a arbedwyd.

Rydym wedi ymrwymo i greu ystad gynaliadwy ac yn mynnu bod pob un o'n hadeiladau newydd yn cael sgôr Rhagorol BREEAM a Thystysgrif Perfformiad Ynni gradd 'A'. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ystyried darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn ysgolion a cholegau a lle darperir maes parcio ceir ar gyfer datblygiad ysgol neu goleg newydd, rhaid bod gan o leiaf 10% o leoedd parcio ceir bwyntiau gwefru cerbydau trydan. Mae trafnidiaeth ffordd yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau carbon a llygredd aer niweidiol a gellir cael mwy o wybodaeth yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru (llyw.cymru). Gall seilwaith gwefru annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan ac fel rheol nid yw'n gostus pan fydd yn cael ei gynnwys ar y cam dylunio.

## 4.3 Gwariant cymwys

Caiff gwariant cyfalaf ei ddiffinio mewn statud drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Rydym yn defnyddio'r diffiniadau bras a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr. Yn gyffredinol mae a wnelo â gwariant ar gyfer:

- Caffael neu greu ased newydd
- Gwella asedau sy'n bodoli'n barod.

*"Enhancement", in relation to any asset, means the carrying out of works which are intended:*

*(a) to lengthen substantially the useful life of the asset; or*

*(b) to increase substantially the open market value of the asset; or*

*(c) to increase substantially the extent to which the asset can or will be used for the purposes of or in connection with the school concerned."*

Yn ei hanfod mae a wnelo gwariant cyfalaf â darparu a gwella asedau sefydlog o bwys, gan gynnwys tir, adeiladau a chyfarpar (megis ysgolion, tai newydd a pheiriannau) a fydd o ddefnydd ac o fudd wrth ddarparu gwasanaethau am fwy nag un flwyddyn ariannol.

Weithiau gall fod yn anodd penderfynu a yw gwariant cyfalaf yn cynnal neu'n gwella oes/gwerth ased. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai geiriau allweddol sy'n gallu dangos ai cyfalaf ynteu refeniw yw gwariant.

| Geiriau allweddol yn dynodi gwariant Cyfalaf | Geiriau allweddol yn dynodi gwariant Refeniw |
|---|---|
| Gwella, Uwchraddio, Ymestyn, Adeiladu neu Brynu | Atgyweirio, Cynnal a Chadw, Newid tebyg am debyg, Adfer neu Adnewyddu |

Mae gwariant cyfalaf ar gyfer ysgolion/pwrpasau addysgol yn cynnwys y canlynol:

- Cost caffael tir ac adeiladau
- Cost gwaith adeiladu newydd
- Cost estyniadau i adeiladau presennol
- *Gwella** tir, ffyrdd neu adeiladau (**o fewn ôl troed yr ysgol/coleg**)
- Gellir cyfalafu prynu cyfrifiaduron/cyfarpar cyfrifiadurol os ydynt yn rhan o brosiect cyfalaf ar raddfa fawr, yn cynnwys ceblau a chaledwedd cysylltiedig. **Gwella* yw lle mae arian yn cael ei wario ar ased sy'n bodoli'n barod a bod hynny'n cynyddu'i werth neu'n ymestyn ei oes ddefnyddiol yn sylweddol. Nid yw'n cynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol.

Mae cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'i dargedu at gefnogi gwaith ailfodelu ac ailadeiladu:

- Ailfodelu – uwchraddio'r adeilad presennol yn helaeth ac ailddylunio'r ystafelloedd (e.e. uwchraddio i gyd-fynd â'r cwricwlwm, cyfleusterau newydd a chydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd).

- Ailadeiladu – e.e. dymchwel adeilad yn rhannol/yn gyfan gwbl a'i ailadeiladu i safonau modern.

### 4.3.1 Costau a maint ysgolion newydd

Er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg a bod ein hysgolion yn cynnig safon gyson ledled Cymru, rydym yn cynghori y dylid dylunio ysgolion ac ysgolion arbennig yn unol â maint mwyaf posibl y Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi Safon Costau a Maint ar waith ar gyfer y Rhaglen. Dylai ein safon fod yn gymwys i'r gost adeiladu a rhoi cyfanswm cost ysgol, gan roi hyblygrwydd llawn i awdurdodau lleol ailgyflunio'r ysgol i adlewyrchu eu hanghenion. Ni fydd y safon yn atal awdurdodau lleol rhag codi ysgolion mwy o faint os dymunir; fodd bynnag, bydd y safon yn cael ei defnyddio i gyfrifo uchafswm y cyllid sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru.

Dyma restr o'r elfennau y mae angen eu cynnwys yng nghost safonol ysgol gwbl newydd:

- arolygon
- ffioedd
- costau cynllunio
- costau dylunio
- gwaith rhagarweiniol
- gorbenion ac elw
- costau symud
- adeiladu (gan gynnwys isadeiledd, uwchadeiledd, gorffeniadau mewnol,

ffitiadau a dodrefn sydd ynghlwm wrth yr adeilad yn ffisegol, a gwasanaethau)

- gwaith allanol (gan gynnwys darpariaeth chwarae a chwaraeon arbenigol awyr agored, megis caeau 3G a MUGA, cyrtiau tennis, llifoleuadau, lleoedd parcio, tirlunio a systemau draenio)
- arian wrth gefn/chwyddiant/lwfans risgiau (dylai'r costau hyn gael eu lleihau yn ystod y broses dendro)

Mae'r safon yn cynrychioli cost lawn codi cyfleuster newydd ar safle tir glas, gwastad, heb fod angen dymchwel hen adeilad, a heb fod unrhyw broblemau'n codi o ran cyflwr y ddaear o dopograffi'r safle na halogiad y tir, gyda dull safonol o ymdrin â'r sylfeini. Os na fydd y safle ar dir glas gwastad, gwerthfawrogwn y ffaith y gall costau annormal eraill godi a all gael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru.

Gallai'r costau annormal cymwys gynnwys:

- cael gwared ar asbestos
- glanhau tir halogedig
- delio â phroblemau mwyngloddio hanesyddol
- gosod seilbyst neu ateb arall o ran y sylfeini sy'n angenrheidiol oherwydd cyflwr y ddaear
- gwneud y safle'n wastad oherwydd y topograffi

Gweler y **Safon Costau a Maint (Atodiad 6 a 6a)** i gael gweld rhestr lawn o'r meintiau a'r costau sydd wedi'u capio ar gyfer adeiladu ysgolion newydd. Dylai awdurdodau lleol restru holl gostau'r prosiect yn y Templed Costau Prosiect er mwyn ein galluogi i benderfynu a ellir eu cyllido drwy Lywodraeth Cymru. Bydd angen darparu tystiolaeth gadarn os bydd ardal y prosiect neu gostau'r prosiect yn uwch na'r hyn a welir yn y fformiwlâu hyn i'w hystyried gan y Panel Buddsoddi mewn Addysg.

Er enghraifft, ni fyddai gwaith priffyrdd y tu hwnt i ffiniau'r ysgol neu'r coleg yn gymwys i gael cyllid o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

### 4.3.2 Ffioedd proffesiynol

Gofynnir inni'n aml a fydd Llywodraeth Cymru'n talu ffioedd proffesiynol fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. At ei gilydd dim ond y costau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio y mae modd eu hystyried yn wariant cyfalaf.

Gall gwariant cyfalaf gynnwys ffioedd penseiri a syrfewyr lle maent yn arwain at gaffael neu godi adeilad. Byddwn yn ystyried ffioedd proffesiynol o **Gam 2 RIBA** ymlaen (ffioedd dylunio penseiri ac ati) yn gostau cyfalaf os caiff yr achos busnes priodol ei gymeradwyo a bod yr ased yn cael ei greu/adeiladu. Fodd bynnag, os eir i'r ffioedd ar gamau cynnar iawn rhaglen gyfalaf, mewn perthynas â'r camau Cychwyn a Briff Strategol (Camau 0-1 RIBA); byddant yn cael eu hystyried yn weithgareddau refeniw.

Gellir sgorio ffioedd yr aed iddynt mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, sy'n cael eu hystyried yn gyfalaf, yn erbyn cyfraniad o 35% gan awdurdod lleol/sefydliad addysg bellach.

Rhaid manylu ar hyn yn adran Achos Ariannol yr achos busnes a gyflwynir fel ein bod yn deall pa ran o'r prosiect(au) rydym yn ei hariannu. Mae hyn yn dibynnu ar gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn/Achos Cyfiawnhad Busnes a gyflwynir.

Lle yr eir i gostau drwy ddefnyddio timau dylunio mewnol neu wasanaethau ymgynghorol sydd ynghlwm wrth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, rhaid cadw at y rheolau canlynol o ran gwariant cymwys:

- Nid yw timau dylunio mewnol sydd â chyllideb ganolog wedi'i dyrannu iddynt o fewn yr awdurdod lleol yn gymwys am grant.
- Timau dylunio mewnol heb gyllideb ganolog wedi'i phennu iddynt, ond sy'n codi ffioedd ar adrannau eraill sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Yn yr achos hwn, gellir adhawlio costau cyflogau'r tîm dylunio, ynghyd â thaliadau, Yswiriant Gwladol a chostau phensiwn. Ni fyddai'r argostau, sy'n cynnwys costau swyddfeydd, y gyflogres a chymorth ariannol ac ati yn gymwys.
- O ran adrannau mewnol sydd wedi'u sefydlu fel gwasanaeth ymgynghorol, e.e. busnes ar wahân i'r awdurdod lleol sy'n gweithredu fel endid masnachol, byddai'r swm cyfan yn gymwys.

Lle nad yw costau awdurdod lleol na sefydliad addysg bellach yn gymwys o dan y meini prawf uchod, gellir eu defnyddio fel rhan o'r cyfraniad 35% o gan yr awdurdod lleol a'r sefydliad addysg bellach at gost y prosiect.

#### 4.3.3 Mynediad oddi ar briffyrdd

Mae cyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu i ailadeiladu neu ailfodelu ysgolion, felly gellir priodoli cyllid grant i'r seilwaith sydd wedi'i gynnwys o fewn ffiniau'r ysgol. Er enghraifft, lle mae angen gwneud gwaith i wella'r mynediad oddi ar briffyrdd i'r ysgol fel rhan o brosiect cyfalaf, ni fyddai hynny'n gymwys ar gyfer grant Llywodraeth Cymru, a byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol ei ariannu.

#### 4.3.4 Tir

Rydym yn ystyried ceisiadau am gyllid ar gyfer safleoedd newydd fesul achos, a byddem yn chwilio am dystiolaeth bod y safle dan sylw yn opsiwn priodol. Lle cymeradwyir costau prynu tir drwy ein strwythur llywodraethu, gallai’r rhain gael eu talu gan Lywodraeth Cymru yn ôl cyfradd ymyrraeth berthnasol y prosiect.

#### 4.3.5 Costau annormal

Gallai'r costau annormal cymwys gynnwys:
- cael gwared ar asbestos
- glanhau tir halogedig
- delio â phroblemau mwyngloddio hanesyddol
- gosod seilbyst neu ateb arall o ran y sylfeini sy'n angenrheidiol oherwydd cyflwr y ddaear gwneud y safle'n wastad oherwydd y topograffi
- Dymchwel
- Symud/adeilad dros dro
- Lliniaru Llifogydd

#### 4.3.6 Cyfleusterau hamdden a chymunedol

Rydym yn annog cynlluniau i adeiladu asedau hyblyg a byddem yn cefnogi prosiectau sy'n ymgorffori gofod hyblyg a all gael ei ddefnyddio gan yr ysgol/coleg a'r gymuned leol neu glybiau, er enghraifft, neuaddau chwaraeon, caeau, caeau MUGA, cyrtiau tennis, cydleoli

gofal plant i'w gwneud yn haws i bontio i addysg feithrin a darpariaeth a chyfleoedd chwarae.

Anogir awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i feddwl yn arloesol am y gwasanaethau a ddarperir yn eu hardal, a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Ni fydd unrhyw ardaloedd a godir yn llwyr at ddefnydd masnachol / cymunedol yn cael eu hystyried yn gymwys.

#### 4.3.7 Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir

O dan baragraff 5 o Ran 2 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i roi cymorth grant o hyd at 85% o'r gwariant cymwys, a rhaid i'r llywodraethwyr eu hunain ariannu'r 15% sy'n weddill. Mae gwariant cymwys yn golygu gwariant sy'n ymwneud â darparu, newid neu atgyweirio adeiladau neu gyfarpar yr ysgol. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a/neu'r esgobaeth ariannu 15% o unrhyw brosiect cyfalaf pan fyddant yn ceisio cymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir wrth ddatblygu prosiectau ysgol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran datblygu'r Rhaglen, a dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'u Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol perthnasol i sicrhau bod blaenoriaethau'r sector hwn yn cael eu nodi. Gall awdurdodau lleol gytuno i roi cyfraniad i'r corff llywodraethu neu'r esgobaeth ar gyfer cynllun cyfalaf ysgol wirfoddol a gynorthwyir. Os felly, bydd cyfradd ymyrraeth o 85% gan Lywodraeth Cymru o hyd ac ni fydd yn dod yn rhan o'r gyfran o 65% a ddyrennir gan yr awdurdod lleol.

Er mwyn cael gwybodaeth benodol am ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, gan gynnwys y grant cyfalaf cynnal a chadw (CRAMP) a chyllid Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cysylltwch â'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd angen i'r rhai sy'n bwrw ymlaen â phrosiect ar gyfer ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig ymgynghori â CThEF i drafod y sefyllfa o ran TAW.

# 5. Monitro a gwerthuso prosiect

## 5.1 Monitro arferol

Gwneir gwaith monitro yn chwarterol. Bydd hyn yn golygu:

- cadarnhau'r gwariant yr aed iddo hyd hynny drwy'r hawliad cyllid chwarterol
- diweddaru'r daenlen casglu data chwarterol i roi'r diweddaraf ar y broses o gyflawni'r prosiect a'r achosion busnes a gyflwynwyd.
- Adrodd ar Werth Cymdeithasol yn unol â'r canllawiau **(C2 a C4)**.

Bydd angen Rhagamcan o Gyllid y Rhaglen bob blwyddyn (**C1**).

Dylai rhagamcanion o dan y rhaglen gael eu diweddaru wrth i brosiectau fynd rhagddynt a dylent adlewyrchu unrhyw amrywiannau i'r proffil gwariant.

Mae'n hynod bwysig peidio ag edrych ar y dogfennau hyn ar eu pen eu hunain. Mae angen

i'r Achos Busnes gael ei gymeradwyo cyn bod gwariant yn cael ei ryddhau, a dylid cyfrif am hyn yn y rhagamcan ariannol. Mae'n hollbwysig hefyd fod y ffigurau yn yr amcanestyniadau o'r llif arian yn gywir a bod yr holl atodiadau i Achosion Busnes a gyflwynir yn gyson â'i gilydd.

Dylid nodi, oherwydd y pwysau sylweddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru, y byddem yn disgwyl i achosion busnes a cheisiadau am gyllid ddod i law ar amser ac y cydymffurfir â phroffiliau prosiect. Gall Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o gyllid ar ddechrau proffiliau prosiect, (h.y. gallai Llywodraeth Cymru roi cymorth grant am flwyddyn gyntaf y prosiect neu am gyfnod tebyg ac ati) ond byddai angen amgylchiadau eithriadol inni wneud hynny.

O dan drefniadau ariannol Llywodraeth Cymru nid oes gwarant y caiff y Gyfarwyddiaeth Addysg gario unrhyw adnoddau sydd heb eu gwario (llithriant) ymlaen o un flwyddyn i'r nesaf. Mae'n hanfodol rhoi gwybod ar gam cynnar am newidiadau i ragamcanion o'r llif arian neu os bydd costau prosiect yn cynyddu.

Er mwyn gwneud cais i newid proffiliau cyllido, bydd angen cyflwyno ffurflen amrywio i ddiwygio'r llythyr cytundeb grant a lofnodwyd. Ym mhob achos rhaid gwneud ceisiadau o'r fath drwy'r tîm Cyllid Cyfalaf a hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser.

## 5.2 Amrywio Prosiect

Dylai amrywiadau gael eu rheoli'n lleol, a dylai costau prosiect gynnwys digon o arian wrth gefn i gyfrif am risgiau hysbys.

Os bydd problem nas rhagwelwyd wedi arwain at gynnydd mewn costau na ellir ymdrin ag ef fel rhan o lwfans wrth gefn y prosiect, gall partneriaid cyflawni gyflwyno cais amrywio am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i bartneriaid cyflawni hysbysu'r tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy cyn gynted ag y dônt yn ymwybodol o unrhyw amrywiadau i brosiectau a gymeradwywyd. Dim ond ar sail y costau terfynol neu'r costau a wireddwyd y dylid cyflwyno'r cais amrywio a hynny er mwyn osgoi amrywiadau lluosog ar gyfer prosiect unigol.

Caiff ceisiadau amrywio eu hystyried gan y Panel Buddsoddi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a/neu'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch. Cwblhewch a chyflwynwch **Ffurflen Amrywio (Atodiad 9)**.

Rhaid cynnwys holl gostau terfynol prosiect yn yr Adroddiad Cau terfynol, pan fydd cyfanswm costau'r prosiect wedi crisialu.

Ni fydd ceisiadau amrywio a gyflwynir ar ôl hyn yn cael eu hystyried.

## 5.3 Archwiliadau

Mae pob prosiect sy'n cael grant yn cael archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Sylwch fod rhaid cadw cofnodion priodol o'r gwariant, yn cynnwys anfonebau, taflenni amser a thystiolaeth o brosesau caffael sy'n cydymffurfio.

## 5.4 Adroddiad Cau

Ar ddiwedd y prosiect, dylai Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect gael ei gwblhau'n llawn a darparu'r cyfansymiau cronnol terfynol ar gyfer yr hyn y mae'r prosiect wedi ei

gyflawni. Dylai partneriaid gwblhau'r golofn 'Gwirioneddol' sydd i'w gweld mewn coch yn Nelwedd 5. Bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi effaith lawn y prosiect a rhaid ei gyflwyno o fewn 18 mis i gwblhau'r prosiect.

**Rhaid i bartneriaid gyflwyno'r datganiadau yn Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect, eu Hadroddiad Cau, i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy drwy e-bost (cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru), o fewn 18 mis i gwblhau'r prosiect. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn y cyfnod hwn. Mae hyn yn un o amodau'r cyllid ac fel arall ni chaiff arian yr arian a gedwir yn ôl ei ryddhau**

Nid yw'n ofynnol gennym fod y tystysgrifau yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru pan gyflwynir adroddiadau cau. Fodd bynnag, rhaid i'r Swyddog Adran 151 lofnodi'r dogfennau i'w cadw at ddibenion archwilio unwaith y bydd yr holl dystysgrifau/dogfennau yn eu lle.

## 5.5 Manteision

Mae sicrhau manteision a dangos tystiolaeth ohonynt yn hollbwysig i lwyddiant y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Fel rhan o'r broses o gau prosiectau, bydd angen ichi gadarnhau'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn meysydd allweddol yn yr Adroddiad Cau. Mae hyn yn cynnwys y manteision canlynol:

**Manteision Craidd Cyflawni'r Prosiect**

- Cadarnhad bod ased wedi cael ei greu yn unol â'r Achos Busnes a gymeradwywyd.
- Cael tystysgrif Rhagorol BREEAM.
- Cael Tystysgrif Perfformiad Ynni Gradd 'A'.
- Systemau chwistrellu wedi'u gosod yn unol â gofynion y Rhaglen.
- Cadarnhad bod y targedau perfformiad o ran acwsteg wedi cael eu cyflawni.

**Gwerth Cymdeithasol**

- Cyflawniadau gwirioneddol Metrigau Craidd Gwerth Cymdeithasol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Cyflawniadau gwirioneddol Metrigau Wedi'u Targedu Gwerth Cymdeithasol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

**Adrodd ar Gyfrifon Banc Prosiectau**

- Os yw Cyfrif Banc Prosiectau wedi cael ei ddefnyddio, rhaid rhoi gwybod am y canlynol:
    - Canran y taliadau a wnaed o fewn 30 diwrnod i bob parti yn y cyfrif
    - Nifer yr is-gontractwyr haen 2 a haen 3 sy'n barti yn y cyfrif
    - Canran gwerth y contract a dalwyd drwy'r cyfrif

Yn ogystal, rhaid cyflwyno'r dyddiadau dechrau a gorffen adeiladu gwirioneddol a chwblhau holiadur gwerthuso prosiect Llywodraeth Cymru fel rhan o broses yr adroddiad cau.

**Cadarnhau Manteision ar ôl Cwblhau'r Prosiect**

Efallai y bydd asesiadau pellach yn cael eu cynnal ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau er

mwyn cadarnhau a yw manteision yn y tymor hwy wedi cael eu gwireddu. Mae hyn yn cynnwys:

- Lleihau lleoedd dros ben neu gadarnhad bod digon o leoedd wedi cael eu sicrhau
- Gwelliannau i ddeilliannau dysgwyr a'u cyrhaeddiad addysgol
- Tystiolaeth o unrhyw swyddi sydd wedi cael eu creu, gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau gwaith
- Gostyngiad yng nghyfraddau absenoldeb dysgwyr ac ati
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd yr ysgol drwy ddulliau teithiol llesol (e.e. cerdded, olwyno a beicio).

Caiff rhywfaint o'r data hyn ei gasglu drwy'r Broses Gwerthuso Adeiladau a Ddefnyddir, a ddylai gael ei chwblhau bob blwyddyn hyd at 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith ymarferol.

Dylai partneriaid ddilyn y Canllawiau Gwerth Cymdeithasol er mwyn deall pa dystiolaeth sydd ei hangen am effaith Gwerth Cymdeithasol. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hwylus os bydd y tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gofyn amdani.

## 5.6 Cadw arian yn ôl

Bydd 2.5% o'r grant yn cael ei gadw yn ôl ar bob prosiect hyd nes y bydd adroddiad cau boddhaol a'r ddogfennaeth gysylltiedig wedi dod i law. Dylai'r adroddiad cau a'r ddogfennaeth ddod i law o fewn deunaw mis i gwblhau'r prosiect.

## 5.7 Cyhoeddusrwydd

Mae cyhoeddusrwydd ar y cyd i'r Rhaglen, a'i chynlluniau grant cyfalaf cysylltiedig, yn un o amodau'r cyllid. Mae'n hanfodol bod pob rhanddeiliad yn cydgysylltu ymdrechion i sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a noddwyr prosiectau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod prosiectau mor weladwy â phosibl ac i ddangos yn effeithiol effaith gadarnhaol y broses gyflawni gydweithredol, o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yng Nghymru.

Rhaid hysbysu tîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mor gynnar â phosibl am ddigwyddiadau neu gerrig milltir allweddol mewn perthynas â phrosiectau ysgol a ariennir gan gyllid cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys seremonïau (torri tir/gosod y garreg gopa/llofnodi dur), seremonïau agor swyddogol, a chynlluniau lansio. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru am gymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath, a bydd tîm y Rhaglen yn helpu awdurdodau lleol i gydgysylltu'r trefniadau hyn pan fydd dyddiaduron yn caniatáu.

Dylid cadw cofnodion o gyhoeddiadau ffurfiol ac anffurfiol, erthyglau yn y wasg ac mewn cylchgronau, datganiadau i'r wasg, cyfweliadau ar y cyfryngau (teledu a radio) a seremonïau lansio ac agor swyddogol fel tystiolaeth o'r mesurau cyhoeddusrwydd a roddir ar waith yn ystod oes eich prosiect. Hoffai'r tîm hefyd gael cyfle i edrych ar ddrafftiau cynnar o'r cyhoeddiadau hyn er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau priodol at gyllid y Rhaglen yn cael eu cynnwys.

Gofynion allweddol:

- Rhaid i'r holl wefannau, arwyddion, placiau, cyhoeddiadau a datganiadau i'r wasg (gan gynnwys rhanddeiliaid trydydd parti) gyfeirio at ffynhonnell y cyllid yn y paragraffau agoriadol a chael eu hanfon at Lywodraeth Cymru cyn eu rhyddhau.

- Rhaid i arwyddion safle yn ystod y cyfnod adeiladu gydnabod Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.
- Rhaid ichi roi gwybod i dîm y Rhaglen am ddigwyddiadau a seremonïau agor i ddod sy'n ymwneud â'r prosiect er mwyn rhoi cyfle i'r Gweinidogion gymryd rhan
- Rhaid cyflwyno ffotograffau o ysgolion/colegau cyn ac ar ôl y gwaith at ddibenion cyhoeddusrwydd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

Mae ein canllawiau llawn ar gyhoeddusrwydd ar gael ar ein gwefan.

## 5.8 Adolygiadau Gateway

Bydd yn ofynnol i bob partner cyflawni gynnal Adolygiad Gateway er mwyn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a'r Uwch-berchennog Cyfrifol bod modd cyflawni'r rhaglen. Bydd y broses hon yn helpu partneriaid cyflawni i sicrhau eu bod wedi rhoi'r cynlluniau, y prosesau a'r adnoddau priodol ar waith i gyflawni eu rhaglenni a'u prosiectau yn llwyddiannus.

Mae rhaglen o Adolygiadau Gateway wedi cael ei datblygu i'w chynnal dros gyfnod o 5 mlynedd. Caiff partneriaid cyflawni eu hysbysu cyn eu hadolygiad er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl. Bydd Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn destun Adolygiad Gateway annibynnol ei hun fel rhan o'r broses hon.

Llywodraeth Cymru fydd yn talu cost yr adolygiad, ond bydd yn ofynnol i bartneriaid cyflawni gwblhau'r ffurflenni perthnasol a chymryd rhan mewn cyfarfodydd blaengynllunio cyn yr adolygiad.